

Agenda – Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Hybrid – Ystafell Bwyllgora 4 Tŷ Hywel a Naomi Stocks
fideogynadledda drwy Zoom Clerc y Pwyllgor
Dyddiad: Dydd Iau, 19 Medi 2024 0300 200 6565
Amser: 09.30 SeneddPlant@senedd.cymru

Hybrid

Rhag-gyfarfod preifat

(09.15 – 09.30)

Cyfarfod cyhoeddus

(09.30)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

2 Plant a Phobl Ifanc sydd ar yr ymylon: sesiwn dystiolaeth

(09.30 – 11.00)

(Tudalennau 1 – 45)

Jane Hutt AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y
Trefnydd a'r Prif Chwip

Dawn Bowden AS, Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol

Taryn Stephens, Dirprwy Gyfarwyddwr Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol,
Llywodraeth Cymru

Alistair Davey, Dirprwy Gyfarwyddwr Galluogi Gwasanaethau Cymdeithasol,
Llywodraeth Cymru

Dogfennau atodol:

Briff Ymchwil

Papur – Llywodraeth Cymru

Papur – NYAS (Saesneg yn unig)

Egwyl

(11.00 – 11.15)



Senedd Cymru
Welsh Parliament

3 Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) – sesiwn dystiolaeth 1

(11.15 – 12.45)

(Tudalennau 46 – 87)

Mark Drakeford AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg

Bethan Webb, Dirprwy Gyfarwyddwr, Cymraeg 2050, Llywodraeth Cymru

Iwan Roberts, Uwch Gyfreithiwr, Llywodraeth Cymru

Dogfennau atodol:

Briff Ymchwil

4 Papurau i'w nodi

(12.45)

4.1 Plant a Phobl Ifanc sydd ar yr ymylon

(Tudalennau 88 – 90)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Ysgrifennydd

y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif

Chwip a'r Gweinidog Gofal Cymdeithasol

4.2 Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru)

(Tudalennau 91 – 106)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Gadeirydd

Dros Dro y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

4.3 Gwybodaeth gan randdeiliaid

(Tudalennau 107 – 108)

Dogfennau atodol:

Nodyn briffio gan Sefydliad Bevan ar Brydau Ysgol am Ddim (Saesneg yn

unig)

4.4 Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru)

(Tudalennau 109 – 111)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant Pobl Ifanc ac Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol

4.5 Plant a Phobl Ifanc sydd ar yr ymylon

(Tudalennau 112 – 117)

Dogfennau atodol:

Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (Saesneg yn unig)

4.6 Plant a Phobl Ifanc sydd ar yr ymylon

(Tudalennau 118 – 132)

Dogfennau atodol:

Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg gan Blismona yng Nghymru (Saesneg yn unig)

4.7 Plant a Phobl Ifanc sydd ar yr ymylon

(Tudalennau 133 – 135)

Dogfennau atodol:

Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (Saesneg yn unig)

4.8 Plant a Phobl Ifanc sydd ar yr ymylon

(Tudalennau 136 – 139)

Dogfennau atodol:

Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg gan Gymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru

4.9 Plant a Phobl Ifanc sydd ar yr ymylon

(Tudalennau 140 – 141)

Dogfennau atodol:

Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys (Saesneg yn unig)

4.10 Plant a Phobl Ifanc sydd ar yr ymylon

(Tudalennau 142 – 144)

Dogfennau atodol:

Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (Saesneg yn unig)

4.11 Plant a phobl ifanc sydd ar yr ymylon

(Tudalennau 145 – 150)

Dogfennau atodol:

Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip a'r Gweinidog Gofal Cymdeithaso

4.12 Recriwtio a chadw athrawon

(Tudalennau 151 – 166)

Dogfennau atodol:

Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

4.13 Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru)

(Tudalen 167)

Dogfennau atodol:

Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg gan Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol

5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn.

(12.45)

Cyfarfod preifat

(12.45 – 13.15)

6 Trafod y dystiolaeth a gafwyd yn y sesiynau dystiolaeth blaenorol.

(12.45 – 13.00)

Dogfennau atodol:

**7 Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025–26 – trafod y
cwmpas a’r dull gweithredu**

(13.00 – 13.15)

(Tudalennau 168 – 173)

Dogfennau atodol:

Papur preifat – Cwmpas a dull gweithredu

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon



Plant a Phobl Ifanc ar y cyrion

Tystiolaeth i'r Pwyllgor Plant,
Pobl Ifanc ac Addysg

Cynnwys

- 1. Cyflwyniad.....3
- 2. Yr hyn rydym yn ei wybod am natur a graddfa’r materion diogelu hyn.....4
- 3. Polisi ac Ymarfer.....9
- 4. Casgliad.....15

1. Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn defnyddio'r term 'plant a phobl ifanc yr adroddir eu bod ar goll o'r cartref neu o ofal'. Gall y term 'mynd ar goll' awgrymu bod plant a phobl ifanc yn gwneud dewis ac yn rhoi'r cyfrifoldeb am y 'broblem' ar y plant a'r bobl ifanc hynny.

Mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn nodi y gallai unrhyw blentyn neu berson ifanc yr adroddir ei fod ar goll o'r cartref neu o ofal fod yn wynebu risg o ddioddef camfanteisio neu brofi niwed arall.

Mae'r papur hwn yn rhoi trosolwg o bryderon diogelu o gasgliadau data ac ymchwil presennol, gan gynnwys plant a phobl ifanc sy'n wynebu risg uwch o gael eu hadrodd fel rhai sydd ar goll, o ddioddef camfanteisio neu sy'n wynebu risg o ddioddef camfanteisio.

Mae'r papur hwn yn esbonio'r polisi ac arferion presennol yng Nghymru sy'n ymwneud â'r pryderon diogelu hyn, gan gynnwys sut mae asiantaethau'n ymateb pan godir pryderon.

Oherwydd pwysigrwydd diogelu plant a phobl ifanc ac ehangder yr agenda ddiogelu, mae'r cyfrifoldeb yn disgyn ar fwy nag un portffolio Gweinidogol.

2. Yr hyn rydym yn ei wybod am natur a graddfa'r materion diogelu hyn

Data a gesglir gan yr Heddlu am unigolion coll

Mae Uned Unigolion Coll y DU (UKMPU), o fewn yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, yn casglu a dadansoddi data am unigolion coll (plant ac oedolion), i gefnogi gweithrediadau ymchwiliol ac ataliol gan heddluoedd yn y Deyrnas Unedig.

Yn ôl Adroddiad Ysgrifenedig diweddaraf (2021/22)¹, mewn perthynas â Chymru a Lloegr, cyfanswm y plant unigol a aeth ar goll oedd 63,866 a phlant mewn gofal oedd 24% o'r holl blant (unigolion) a aeth ar goll, ond eu bod yn 43% o'r holl achosion yn ymwneud â phlant coll. Mae hyn yn golygu, ar gyfartaledd, y byddai plentyn mewn gofal a aeth ar goll yn 2021/22 wedi gwneud hynny bum gwaith, o gymharu â dwywaith yn achos plentyn nad oedd mewn gofal a aeth ar goll.

O gymharu â Lloegr, yn yr un cyfnod, cofnododd Cymru 10,204 o ddigwyddiadau, gyda 3,249 ohonynt yn ymwneud â phlant a phobl ifanc (unigol).

O'r ffigur hwn, roedd 1,138 o'r plant a'r bobl ifanc hyn mewn gofal pan adroddwyd eu bod ar goll.

*Ni ellir cyfrifo'r nifer cyfartalog hwn o achlysuron coll gan na ddarparodd Heddlu Gogledd Cymru ddata ar gyfer y cyfnod hwn)

*Efallai y bydd plant a phobl ifanc wedi cael eu nodi fel rhai sydd ar goll fwy nag unwaith, felly mae'r wybodaeth am unigolion yn fwy defnyddiol.

Data a gesglir gan awdurdodau lleol ar blant yr adroddir eu bod ar goll yng Nghymru

Mae'r Fframwaith Perfformiad a Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol wedi gallu casglu a chyhoeddi cyfanswm yr adroddiadau (digwyddiadau) a chyfanswm y plant (unigolion) sy'n mynd ar goll o ofal yn ystod y flwyddyn, fesul ardal awdurdod lleol. Mae ffigurau Cymru Gyfan ar gyfer 2022/23 fel a ganlyn:²

	Cyfanswm nifer yr adroddiadau am blant sy'n mynd ar goll o ofal	Cyfanswm nifer y plant sy'n mynd ar goll o ofal
--	---	---

¹ Adroddiad Ysgrifenedig UKMPU 2021-22 <https://missingpersons.police.uk/en-gb/resources/downloads/download/128>

² StatsCymru – plant sy'n mynd ar goll o ofal yn ystod y flwyddyn, yn ôl awdurdod lleol <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/social-services-performance-and-improvement-framework/children-and-families/childrens-safeguarding/childrenwhogomissingfromcareduringtheyear-local-authority>

2020-21	2,977	1,139
2021-22	3,744	1,422
2022-23	5,391	2,097

O 2023-24, bydd y **cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth (CRCS)**³ hefyd yn mesur sawl gwaith y bydd plant a phobl ifanc yn mynd ar goll yn ystod y flwyddyn gasglu, gan archwilio nodweddion megis oedran, rhywedd ac ethnigrwydd. Bydd hyn yn darparu cyd-destun ychwanegol o ran pwy sy'n cael eu hadrodd fel rhai sydd ar goll, ac unrhyw batrymau a thueddiadau sy'n dangos risgiau a gysylltwn â grwpiau a allai fod yn wynebu risg uwch.

Mae awdurdodau lleol (o dan y Fframwaith Perfformiad a Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol) a chyfrifiad CRCS yn casglu data ar blant coll sy'n derbyn gofal a/neu'n derbyn gofal a chymorth, neu gymorth fel gofalwyr gan yr awdurdod lleol. Mae metrigau ychwanegol a gipiwyd gan gyfrifiad CRCS, yn cynnwys pob plentyn sydd â chynllun gofal a chymorth:

- sy'n cael eu cefnogi yn eu teuluoedd neu'n annibynnol.
- sy'n derbyn gofal ac yng ngofal awdurdod lleol neu'n cael eu lletya gan awdurdod lleol.
- sydd ar y gofrestr amddiffyn plant ac sy'n destun cynllun amddiffyn rhyngasiantaethol.

Hysbysiadau i Arolygiaeth Gofal Cymru am blant yr adroddir eu bod ar goll o ofal a'r rhai sy'n wynebu risg o gamfanteisio rhywiol neu droseddol

Mae Rheoliad 60 ac Atodlen 3 o Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017⁴ yn ei gwneud yn ofynnol i **ddarparwyr gwasanaethau cartrefi gofal i blant** (cartrefi plant) hysbysu Arolygiaeth Gofal Cymru, yr awdurdod lleoli a'u hawdurdod lleol eu hunain **pan fydd plentyn yn mynd ar goll neu'n absennol heb esboniad**.

Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, pan na fydd lleoliad plentyn neu'r rheswm dros ei absenoldeb yn hysbys a'i fod yn destun pryder oherwydd ei fod yn agored i niwed neu'n risg i'w hun neu i eraill. Bydd y pwynt lle bydd y cartref gofal yn pryderu ac yn cymryd camau, gan gynnwys rhoi gwybod i'r heddlu bod y plentyn ar goll, yn amrywio yn ôl asesiad risg unigol y plentyn.

Rhaid i ddarparwyr hefyd hysbysu Arolygiaeth Gofal Cymru, yr awdurdod lleoli, eu hawdurdod lleol eu hunain a'r heddlu am **unrhyw ddigwyddiad o gamfanteisio'n**

³ Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth Cymru <https://www.llyw.cymru/cyfrifiad-plant-syn-derbyn-gofal-chymorth-cymru>

⁴ Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017 <https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2017/1264/contents/welsh>

rhywiol ar blant (CSE) neu gamfanteisio troseddol ar blant (CCE), neu lle amheuir hyn. Mae hyn yn cynnwys:

- pan fo plentyn y nodwyd ei fod yn wynebu risg o CSE neu CCE yn mynd ar goll;
- pan fo plentyn yn adrodd am ddigwyddiad sy'n dangos y gallai fod wedi dioddef CSE neu CCE; neu
- lle mae rheswm dros gredu y gallai plentyn fod yn dioddef CSE neu CCE.

Nodir data a gofnodwyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru ar hysbysiadau Rheoliad 60 a dderbyniwyd ar gyfer 2022/23 a 2023/24 fel a ganlyn:

Nifer yr hysbysiadau gan ddarparwyr gwasanaethau cartrefi gofal i blant (1 Ebrill tan 31 Mawrth bob blwyddyn).

Categori'r hysbysiad	2022/23	2023/24
Plentyn yn y gwasanaeth ar goll neu'n absennol heb esboniad	1,950	2,629
Digwyddiad neu amheuaeth o gamfanteisio'n rhywiol neu gamfanteisio troseddol ar blant	89	82

Mae Rheoliad 40 ac Atodlen 3 o Reoliadau Gwasanaethau Maethu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019⁵ hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i **ddarparwyr gwasanaethau maethu** hysbysu Arolygiaeth Gofal Cymru, yr awdurdod lleoli, eu hawdurdod lleol eu hunain a'r heddlu am **unrhyw achos o gamfanteisio'n rhywiol ar blant (CSE) neu gamfanteisio troseddol ar blant (CCE), neu lle amheuir hyn.** Mae hyn yn cynnwys pan fo plentyn yn adrodd am ddigwyddiad sy'n dangos y gallai fod wedi dioddef CSE neu CCE, neu lle mae rheswm dros gredu y gallai plentyn fod yn dioddef camfanteisio ar blant.

Camfanteisio troseddol ar blant a phobl ifanc

O fewn fframwaith Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol (NRM) Llywodraeth y DU, nodir bod camfanteisio troseddol yn un o bedwar math o gaethwasiaeth fodern, ynghyd â chamfanteisio'n rhywiol, camfanteisio ar weithwyr a chaethwasanaeth domestig.

Y brif ddeddfwriaeth ar gamfanteisio troseddol yw Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015. Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo drwy Araith y Brenin 2024 i *gryfhau'r gyfraith i fynd i'r afael â'r rhai sy'n camfanteisio ar blant at ddibenion troseddol*⁶.

⁵ Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019 <https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2019/169/contents/welsh>

⁶ Swyddfa'r Prif Weinidog, Araith y Brenin 2024 https://assets.publishing.service.gov.uk/media/6697f5c10808eaf43b50d18e/The_King_s_Speech_2024_background_briefing_notes.pdf t. 57.

Gall pobl o bob oedran a chefnidir ddioddef camfanteisio troseddol. Mae camfanteisio troseddol ar bobl dan 18 oed wedi'i ddynodi'n Gamfanteisio Troseddol ar Blant (CCE) ac fe'i diffinnir gan Lywodraeth y DU fel a ganlyn:

*"Child Criminal Exploitation is common in county lines and occurs where an individual or group takes advantage of an imbalance of power to coerce, control, manipulate or deceive a child or young person under the age of 18. The victim may have been criminally exploited even if the activity appears consensual. Child Criminal Exploitation does not always involve physical contact; it can also occur through the use of technology."*⁷

Mae canllawiau'r Swyddfa Gartref yn nodi bod CCE yn cynnwys llafur gorfodol, dwyn dan orfod, twyll budd-daliadau, trosedd feddiangar, defnyddio a chynhyrchu cyffuriau, ac achosion 'llinellau cyffuriau'.

Mae ystadegau a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref yn dangos y nifer canlynol o atgyfeiriadau o blant a allai fod wedi dioddef caethwasiaeth fodern a anfonwyd at heddluoedd yng Nghymru er mwyn ymchwilio iddynt yn ystod 2023⁸:

Math gamfanteisio	o	Gwryw	Benyw	Arall	Cyfanswm
Troseddol		214	13	0	227
Llafur		23	1	0	24
Llafur throseddol	a	11	1	0	12
Heb ei nodi neu'n anhysbys		17	10	0	27
Rhywiol		5	36	1	42
Rhywiol throseddol	a	4	9	0	13
Rhywiol a llafur		1	1	0	2

⁷ Y Swyddfa Gartref, Modern Slavery: Statutory Guidance for England and Wales (under s49 of the Modern Slavery Act 2015) and Non-Statutory Guidance for Scotland and Northern Ireland https://assets.publishing.service.gov.uk/media/6659a22316cf36f4d63ebcc3/Modern+Slavery+Statutory+Guidance+_EW_+and+Non-Statutory+Guidance+_SNL_+v3.10.pdf, t. 79.

⁸ Y Swyddfa Gartref, Modern Slavery: National Referral Mechanism and Duty to Notify statistics UK, end of year summary 2023: data tables <https://assets.publishing.service.gov.uk/media/65e1d2fd2f2b3b001c7cd847/modern-slavery-national-referral-mechanism-and-duty-to-notify-statistics-uk-end-of-year-summary-2023.ods>

Rhywiol a Chaethwasanaeth Domestig	0	1	0	1
--	---	---	---	---

Ystyrir mai data UKMPU yw'r data mwyaf cyson sydd ar gael gan ei fod yn defnyddio diffiniad yr heddlu o'r hyn sy'n gyfystyr â chyfnod 'ar goll'. Y diffiniad cenedlaethol o 'Unigolyn Coll' yw 'unrhyw un nad oes modd dod o hyd iddo a lle nad yw'r amgylchiadau'n nodweddiadol, neu os yw'r cyd-destun yn awgrymu y gallai'r person fod yn destun trosedd neu fod perygl y gallai niweidio ei hun neu niweidio rhywun arall'.

Gall awdurdodau lleol weld y data y maent wedi'i gasglu yn amlach nag y byddai data'r UKMPU ar gael, a byddai hyn yn cefnogi ymatebion mwy prydlon o safbwynt strategaeth ac ymarfer. Mae casglu data am blant sy'n derbyn gofal yr adroddir eu bod ar goll yn galluogi awdurdodau lleol i deilwra eu hymateb i'r grŵp risg uchel hwn. Bydd y Cyfrifiad yn galluogi awdurdodau lleol i fapio tueddiadau a phatrymau ehangach ymhlith yr holl blant a phobl ifanc sydd â chynllun gofal a chymorth gweithredol. Er y gall eu statws cyfreithiol fod yn wahanol, mae'r rhain hefyd yn blant a phobl ifanc sydd o bosibl wedi profi camdriniaeth a/neu esgeulustod a/neu drawma yn eu bywydau.

Mae data a gesglir gan Arolygiaeth Gofal Cymru yn cefnogi nodi unrhyw batrymau a thueddiadau sy'n ymwneud â lleoliadau cofrestredig penodol. Mae hyn yn cefnogi ymateb prydlon i unrhyw bryderon ynghylch ymarfer mewn lleoliad penodol fel y gellir gwneud gwaith i gefnogi'r lleoliad i sicrhau bod eu harferion yn cadw plant yn ddiogel.

3. Polisi ac Ymarfer

Cydnabyddir yn eang bod y rhesymau pam yr adroddir bod plant a phobl ifanc ar goll “yn amrywiol, cymhleth ac unigryw i blant unigol”⁹. Er enghraifft:

- ymateb i ddigwyddiad neu newid yn eu bywydau megis newid mewn amgylchiadau teuluol neu brofedigaeth.
- problemau yn y cartref (cartref y teulu neu gartref lle cawsant eu lleoli)
- gallant fod yn anhapus am benderfyniadau/teimlo nad oes unrhyw un yn gwrando arnynt.
- gallant fynd ar goll i ardaloedd lle mae ganddynt deulu neu gysylltiadau.
- gallant fod yn dioddef camdriniaeth neu esgeulustod yn y cartref.
- gallant hefyd fod yn cael eu hannog neu eu gorfodi i fynd ar goll gan oedolion peryglus neu gan blant eraill.

Grwpiau a nodwyd fel rhai sy'n wynebu risg uwch.

Mae amgylchiadau rhai plant yn golygu eu bod yn wynebu risg uwch o fynd ar goll neu ddioddef camfanteisio. Er enghraifft:

- mae plant sy'n derbyn gofal deirgwaith yn fwy tebygol o fynd ar goll na phlant eraill.
- mae plant a phobl ifanc mewn gofal sy'n cael eu lleoli y tu allan i'w hardal leol yn wynebu risg arbennig o fynd ar goll.
- gallai plant ar eu pennau eu hunain sy'n ceisio lloches fod yn wynebu risg uwch o ddioddef camfanteisio.

(Data UKMPU ar gyfer Cymru a Lloegr 2021/2022)

Rhaglen Drawsnewid ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Plant

Gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau plant yng Nghymru yw bod mwy o blant yn derbyn cymorth i aros gyda'u teuluoedd a bod nifer y plant a phobl ifanc sy'n ymuno â'r system ofal yn gostwng. Rydym am sicrhau bod pobl ifanc yn aros mewn gofal am gyn lleied o amser â phosibl, yn unol ag anghenion y person ifanc. Gwyddom fod plant sy'n cael eu lleoli y tu allan i'w hardal leol yn wynebu risg uwch o fynd ar goll. Rhan allweddol o'n gweledigaeth yw sicrhau bod plant sydd mewn gofal yn gallu aros yn agos at eu cartrefi fel y gallant barhau i fod yn rhan o'u rhwydweithiau cymunedol a chymorth.

⁹ <https://diogelu.cymru/cy/chi-i/chi-i-c6/c6-p9/>

Mae deall profiad bywyd plant a phobl ifanc mewn gofal a sut mae hyn yn effeithio ar eu bywydau wrth wraidd popeth rydym wedi'i wneud ac yn parhau i'w wneud. Dyna pam ein bod wedi gweithio'n agos gyda Voices from Care Cymru i drefnu cyfres o Uwchgynadleddau Ymadawyr Gofal. Mae'r Uwchgynadleddau hyn wedi rhoi cyfle i Weinidogion glywed yn uniongyrchol gan blant a phobl ifanc am eu profiadau a'u barn ar ba newidiadau sydd angen eu gwneud. Rydym yn gweithio'n galed i gyflawni'r ymrwymïadau a nodir yn natganiad yr Uwchgynhadledd Profiad o Ofal, y gyntaf o'i bath yn y DU.

Rhianta Corfforaethol

Mae ein Siarter Rhianta Corfforaethol, a lansiwyd ym mis Medi 2023, yn enghraifft dda o sut rydym yn gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid i gefnogi a gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal fel y gallant gael y cyfleoedd bywyd yr haeddant. Mae'r Siarter yn ymwneud â mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar hawliau plant.

Nod y Siarter, sydd unwaith eto wedi'i ddatblygu gyda phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal a phartneriaid, yw ysgogi dull gweithredu cyson ar draws cyrff cyhoeddus yng Nghymru, gwella ymgysylltiad a chodi safonau disgwyliadau pawb sy'n gweithredu fel rhiant corfforaethol i'r plant a'r bobl ifanc sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal.

Mae rhaglen gyfathrebu ac ymgysylltu ar waith sy'n annog pob sefydliad sy'n ymwneud â bywydau pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal i ymuno â'r Siarter a derbyn ei nodau o gefnogi lles yr holl bobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal.

Dileu Elw o ofal plant sy'n derbyn gofal

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ymrwymo i ddileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal. Mae dileu elw o ofal yn ymwneud â darpariaeth sy'n seiliedig ar werthoedd ac anghenion, mae'n ymwneud â newid yn sylfaenol sut mae gwasanaethau'n cael eu darparu i blant a'u teuluoedd fel rhan o rwydwaith o wasanaethau cymunedol, lleol sy'n diogelu ac yn hyrwyddo lles y person ifanc.

Bydd y newidiadau rydym yn ceisio eu gwneud yn sicrhau nad yw arian cyhoeddus a fuddsoddir mewn gwasanaethau cartrefi gofal i blant a gwasanaethau maethu yn arwain at elw i endidau corfforaethol, ond yn hytrach ei fod yn cael ei wario ar wasanaethau plant, er mwyn darparu gwell profiadau a chanlyniadau i bobl ifanc; helpu i ddatblygu a gwella gwasanaethau; ac adeiladu ymhellach ddatblygiad proffesiynol i'r rhai sy'n darparu gofal.

Byddant yn galluogi awdurdodau lleol i gynllunio a sicrhau lleoliadau gofal priodol yn fwy effeithiol gyda phlant a phobl ifanc yn fwy tebygol o gael eu lleoli mewn amgylcheddau sy'n diwallu eu hanghenion yn well. Bydd hyn yn cefnogi lles a datblygiad cyffredinol plant sy'n derbyn gofal, gan arwain at well canlyniadau cymdeithasol, addysgol ac iechyd.

Mae sicrhau lleoliad sefydlog i blant a phobl ifanc yn hollbwysig ac yn helpu i sicrhau'r amgylchedd a'r cyfle gorau posibl iddynt adfer, datblygu, ffynnu a

gwneud cynnydd. Mae angen datblygu ac ehangu'r dewis o opsiynau lleoliad o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion eang a chymhleth plant yn y modd gorau er mwyn helpu i sicrhau bod pob plentyn yn cael y lleoliad cywir ar ddechrau ei daith.

Bydd marchnad a reolir yn fwy effeithlon yn cefnogi hyn ac yn lleihau'r angen i leoli plant ymhell i ffwrdd o'u cymunedau. Drwy wella'r dulliau o gynllunio lleoliadau a rheoli capasiti, gall awdurdodau lleol sicrhau bod mwy o leoliadau ar gael yn nes at gymunedau gwreiddiol y plant, gan sicrhau parhad a mwy o sefydlogrwydd o ran lleoliadau.

Fframwaith Ymarfer Cenedlaethol

Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo'n dda i ddatblygu a chyflwyno Fframwaith Ymarfer Cenedlaethol. Rydym am i'r Fframwaith fod yn sylfaen allweddol ar gyfer ein dull o weithio yng Nghymru fel y gellir sicrhau'r canlyniadau gorau i'n plant mwyaf agored i niwed. Bydd hyn yn ein helpu i gyflawni mewn dull mwy cyson a gweithio mewn modd mwy di-dor ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol, gan ddarparu'r cymorth sydd ei angen ar deuluoedd wrth i ni newid i ddull sy'n sicrhau bod gwasanaethau'n bodloni gofynion pobl yn hytrach na bod pobl yn gorfod bodloni gofynion gwasanaethau.

Cymorth i Blant mewn Gofal

Mae Rhan 10 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol mewn perthynas ag eiriolaeth statudol. Rhaid sicrhau bod pob plentyn sy'n derbyn gofal yn ymwybodol o'i hawl i gymorth eiriolaeth annibynnol a'i fod yn gwybod sut i gael gafael ar y cymorth hwn. Nid yw'r hawl hon yn unswydd ar gyfer achosion pan fydd plentyn sy'n derbyn gofal neu sy'n gadael gofal yn dymuno cwyno; yn hytrach, mae'n cynnwys sefyllfaoedd pan fydd angen i blant neu bobl ifanc gyflwyno sylwadau am ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir gan yr awdurdod lleol.

O dan Ran 6 o'r Ddeddf, rhaid i awdurdod lleol hefyd ystyried a fyddai'n briodol penodi ymwelydd annibynnol ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal ganddo, gan ystyried ffactorau megis a yw'r plentyn yn cael ei leoli ymhell o'i gartref neu'r tu allan i ardal yr awdurdod lleol, a yw'r plentyn yn cael anawsterau wrth gyfathrebu neu feithrin cysylltiadau cadarnhaol neu a yw'n debygol o ymddwyn mewn ffordd a allai olygu y byddai'n wynebu risg o feithrin cysylltiadau amhriodol.

Yn ogystal, bydd plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn cael cyfarfodydd adolygu o leiaf ddwywaith y flwyddyn sy'n cael eu cadeirio gan Swyddog Adolygu Annibynnol (IRO) a fydd wedi cael cyswllt â'r plentyn neu'r person ifanc rhwng y cyfarfodydd adolygu. Rôl yr IRO yw sicrhau bod hawliau'r plentyn/person ifanc yn cael eu cynnal, bod ei ddymuniadau a'i deimladau'n cael sylw a bod asiantaethau sy'n cefnogi'r plentyn/person ifanc yn darparu cymorth i ddiwallu ei anghenion unigol fel y nodir yn ei gynllun gofal a chymorth.

Plant ar eu Pen eu Hunain sy'n Ceisio Lloches/Ffoaduriaid

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fabwysiadu dull 'plentyn yn gyntaf, mudwr yn ail' o gefnogi plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches a ffoaduriaid, ac rydym yn disgwyl i bartneriaid yng Nghymru ddefnyddio'r un dull. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol weithredu er lles pennaf y plant y maent yn eu gwasanaethu a'u bod yn rhoi sylw dyladwy iddynt.

Fel rhan o'r Rhaglen Lywodraethu, mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i barhau i gefnogi a chynnal hawliau plant a phobl ifanc ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches yn ystod tymor y Senedd hon. Cynrychiolwyd plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches yn y gyfres gyntaf o uwchgynadledau plant â phrofiad o fod mewn gofal, gan sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed fel rhan o'r ymgrych i drawsnewid gwasanaethau plant.

Mae plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches yng Nghymru yn cael eu cefnogi hefyd drwy'r Rhaglen Hawliau Lloches (ARP) a ariennir gan Lywodraeth Cymru, sy'n cynnwys cyllid ar gyfer Rhaglen Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid Ifanc TGP Cymru. Mae hon yn bartneriaeth o sefydliadau ledled Cymru sy'n darparu cyngor a chymorth arbenigol i bobl sy'n ceisio lloches wrth iddynt lywio system loches y DU.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gall cyrraedd gwlad dramor ar eu pen eu hunain gael effaith ddinistriol a pharhaol ar fywydau plant a phobl ifanc. Mae'n hollbwysig bod plant sy'n cyrraedd Cymru ar eu pen eu hunain yn gallu cael mynediad at y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i'w helpu i addasu i'w bywyd newydd yma.

Yng Nghymru, mae gennym wasanaeth Gwarcheidiaeth Masnachu Plant Annibynnol (ICTG) sy'n gweithredu'n genedlaethol ledled Cymru a Lloegr ers 2017, sy'n cefnogi plant sydd wedi'u masnachu. Ond, yn ddiweddar, rydym wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches, felly rydym yn ystyried yn fwy manwl a oes angen gwasanaeth Gwarcheidiaeth penodol ar gyfer plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches ar gyfer Cymru.

Wrth symud ymlaen, rydym wedi ymrwymo i edrych ar y cymorth presennol sydd ar gael i blant a phobl ifanc ar eu pen eu hunain, ac i archwilio sut y gallai gwasanaeth gwarcheidiaeth weithio yng Nghymru, yr adnoddau sydd eu hangen i weithredu system o'r fath a sut y gallai ategu'r gwasanaethau statudol sydd eisoes ar gael ar gyfer plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches yng Nghymru.

Cam-drin Plant yn Rhywiol, gan gynnwys Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant

Cyhoeddwyd yr Adroddiad Cyflawni ar gyfer y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol cyntaf ym mis Tachwedd 2022. Law yn llaw gydag ystod eang o bartneriaid yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, rydym bellach yn arwain y gwaith o ddatblygu ail gynllun a fydd yn adeiladu ar yr offer a'r adnoddau ar gyfer teuluoedd ac ymarferwyr a grëwyd o dan y cynllun cyntaf.

Mae camau allweddol yn cael eu haeddfedu i gefnogi'r Cynllun Cyflawni 3 blynedd. Bydd pob cam gweithredu yn cael ei ddylunio i gefnogi Cymru i gyflawni'r nodau cyffredinol a nodir mewn partneriaeth â'n rhanddeiliaid. Caiff y

rhain eu llywio'n uniongyrchol gan argymhellion yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol (IICSA) a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2023.

Mae pedwar llinyn i'r Cynllun Cyflawni: atal, diogelu, cefnogi plant a phobl ifanc (a'u teuluoedd), a chefnogi oedolion sydd wedi goroesi.

Ein nod yw cyhoeddi'r Cynllun Cyflawni a'r Strategaeth Genedlaethol newydd yn 2025, ochr yn ochr â chynlluniau gweithredu a monitro.

Caethwasiaeth Fodern – Camfanteisio Troseddol ar Blant ('caethwasiaeth fodern drwy unrhyw enw arall')

Gan fod caethwasiaeth fodern yn fater a gadwyd yn ôl, mae Llywodraeth Cymru'n ymgysylltu'n rheolaidd â Llywodraeth y DU ar fynd i'r afael â chamfanteisio a chefnogi goroeswyr. Mae Llywodraeth Cymru yn aelod o'r Fforymau Ymgysylltu Caethwasiaeth Fodern a drefnir gan y Swyddfa Gartref. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn cyfarfod yn rheolaidd â swyddogion y Swyddfa Gartref ar faterion polisi amrywiol sy'n ymwneud â chaethwasiaeth fodern, gan gynnwys cyfarfodydd chwarterol rhwng y Swyddfa Gartref a'r Llywodraethau Datganoledig.

Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn manylu ar rolau a chyfrifoldebau hanfodol ymarferwyr er mwyn sicrhau eu bod yn diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg o gael eu cam-drin a'u hesgeuluso. Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn cael eu cefnogi gan Ganllawiau Ymarfer Cymru Gyfan. Mae hyn yn cynnwys y Canllaw Ymarfer ar ddiogelu plant rhag Camfanteisio Troseddol ar Blant (CCE).¹⁰ Mae'r Canllaw Ymarfer yn cydnabod cysylltiadau ag amryw faterion a risgiau diogelu sy'n croestorri. Mae Canllawiau Ymarfer eraill yn cynnwys diogelu plant a allai gael eu masnachu, diogelu plant rhag Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant (CSE), a diogelu plant sy'n mynd ar goll o'r cartref neu o ofal.

Mae adnoddau yng Nghymru ar CCE yn cynnwys Pecyn Cymorth Ymarferydd Diogelu Cymhleth Cymru. Cafodd ei ddatblygu gan ymchwilwyr yn y Ganolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant (CASCADE) ym Mhrifysgol Caerdydd fel rhan o astudiaeth a ariennir gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i CCE yng Nghymru.¹¹

Mae'r gwasanaeth Gwarcheidiaeth Masnachu Plant Annibynnol wedi gweithredu'n genedlaethol yng Nghymru ers 2017 o dan gytundeb y Swyddfa Gartref. Mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu gan National Counter Trafficking Centre Barnardo's. Mae'r gwasanaeth yn darparu cymorth uniongyrchol ac anuniongyrchol i blant sy'n cael eu masnachu, gan gynnwys plant a phobl ifanc sydd wedi dioddef camfanteisio troseddol.

Mae Llywodraeth Cymru yn trefnu Fforwm Gwrthgaethwasiaeth Cymru i ddod â phartneriaid amlasiantaethol at ei gilydd i fynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern a

¹⁰ Gofal Cymdeithasol Cymru, Diogelu Plant rhag Camfanteisio Troseddol ar Blant (CCE) < <https://diogelu.cymru/cy/chi-i/chi-i-c6/c6-p1/> >

¹¹ Prifysgol Caerdydd, Diogelu Cymhleth Cymru <https://www.cardiff.ac.uk/cy/complex-safeguarding-wales> >

chefnogi pobl sydd â phrofiad bywyd o gamfanteisio. Cefnogir y Fforwm gan bedwar gweithgor thematig, sef: atal; cymorth i oroeswyr; hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth; a chadwyni cyflenwi.

Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan

Yng Nghymru, mae gennym wefan ganolog ar gyfer ein gweithdrefnau diogelu ar gyfer plant a phobl ifanc ac oedolion sy'n wynebu risg.

Mae'r gweithdrefnau'n nodi'n glir pa gamau y mae'n rhaid i bob asiantaeth eu cymryd (yn enwedig gwasanaethau plant a'r heddlu) mewn ymateb i adnabod plentyn sydd naill ai'n dioddef camdriniaeth a/neu esgeulustod neu'n wynebu risg o gael ei gam-drin/esgeuluso.

Os nodir bod plentyn/person ifanc yn dioddef camfanteisio (troseddol neu rywiol), bydd gwasanaethau plant yn trefnu cyfarfod strategaeth gyda'r heddlu ac asiantaethau eraill sy'n ymwneud â'r plentyn a'i deulu i ystyried pa gamau sydd angen eu cymryd i ddiogelu'r plentyn yr adroddwyd amdano ac unrhyw blant eraill a allai fod yn dioddef camdriniaeth a/neu esgeulustod, neu'n wynebu risg o'u dioddef.

Mae'r gweithdrefnau'n cynnwys ystod o Ganllawiau Ymarfer Cymru Gyfan (i'w darllen ar y cyd â'r gweithdrefnau) sy'n ymwneud â phynciau penodol megis camfanteisio troseddol. Maent yn cyfeirio at adnoddau eraill a allai gynorthwyo ymarferwyr o bob asiantaeth i nodi ac adrodd am bryderon a fydd yn arwain at ymyrraeth gynharach ym mywydau plant.

4. Casgliad

Mae cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru dros ddiogelu plant a phobl ifanc yr adroddir eu bod ar goll o ofal neu gartref, sy'n dioddef camfanteisio troseddol neu gamfanteisio rhywiol, neu sy'n wynebu risg o'u dioddef, yn perthyn i sawl cangen a dau bortffolio Gweinidogol.

Comisiynodd Llywodraeth Cymru ymchwil i gynorthwyo i ffurfio polisiau yn y dyfodol am blant a phobl ifanc yr adroddir eu bod ar goll:

- Adolygiad o bolisi, gweithdrefnau ac ymarfer wrth ymateb i blant sy'n mynd ar goll o'r cartref neu o ofal.
- Rhanddeiliaid yn ymgysylltu â phlant, pobl ifanc a'u gofalmwyr yn ystod Cyfweiliadau Dychwelyd Adref.

Mae canfyddiadau'r adroddiadau ymchwil wedi nodi sawl maes allweddol sydd angen eu datblygu ymhellach, er bod yr ymchwilwyr yn cydnabod bod rhai cyfyngiadau i'r sylfaen dystiolaeth hon a bod angen ymgynghoriad ehangach.

- Mae Llywodraeth Cymru'n **sefydlu grŵp cynghori polisi mewnol** a fydd yn cynnwys cynrychiolwyr o feysydd polisi sydd â diddordeb personol yn y maes hwn i ystyried yr hyn y gallwn ei wneud yn well neu'n wahanol ar lefel polisi.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi **sefydlu grŵp rhanddeiliaid** i ystyried sut rydym yn archwilio'r materion a godwyd yn yr ymchwil yn ehangach gyda'r holl rhanddeiliaid allweddol. Bydd y cyfarfod cyntaf yn cael ei gynnal cyn diwedd mis Medi.
- Bydd y grŵp rhanddeiliaid hefyd yn **ystyried rôl grwpiau Cymru gyfan/rhanbarthol cysylltiedig** sy'n bodoli ar hyn o bryd i rannu arferion gorau.
- Bydd y grŵp rhanddeiliaid yn ystyried yr hyn sydd eisoes yn hysbys am y **ddarpariaeth Cyfweiliadau Dychwelyd Adref** a sut mae'r prosiectau hyn yn cael eu hariannu ar hyn o bryd.
- Bydd y grŵp rhanddeiliaid yn adolygu enghreifftiau o arferion gorau yng Nghymru.
- Gan ddefnyddio'r sylfaen dystiolaeth a gasglwyd drwy ymgynghoriad, bydd y grŵp rhanddeiliaid yn **adolygu a diwygio Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan: Diogelu Plant sy'n Mynd ar Goll o'r Cartref neu o Ofal**.
- Bydd y grŵp rhanddeiliaid yn cynorthwyo i **ddatblygu cynllun wedi'i dargedu** a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Gweinidog Gofal Cymdeithasol ynghylch unrhyw gamau pellach. Yr amserlen amcangyfrifedig ar ei gyfer fydd **mis Mai 2025**.

Mae gwaith sylweddol yn mynd rhagddo yng Nghymru i ddiogelu plant a phobl ifanc. Fodd bynnag, cydnabyddir bod mwy o waith i'w wneud.

Children and Young People on the Margins Evidence Session

NYAS Cymru Questions for Consideration

19th September 2024

1. In response to the Children, Young People and Education's Committee '*If not now, then when*' report in 2023, Welsh Government accepted recommendation 21 from the Committee which recommended for Welsh Government to: "respond to the concerns raised by NYAS Cymru in oral evidence on 15 February 2023, and by the Children's Society in their written response to our consultation, in relation to incidents of children missing from care. In doing so, it should set out clearly its expectations of local authorities, the police, and other statutory partners in their response to incidents of missing children, and its views on their calls for statutory return home interviews."
 - What steps have Welsh Government taken since accepting recommendation 21 to set out their clear expectations of local authorities, the police, and other statutory partners in their response to incidents of missing children?
2. In England, care-experienced children have a statutory right to the offer of an independent return interview after a missing incident. In the remainder of the current Programme of Government, will Welsh Government make the offer of an independent return interview a statutory right for care-experienced children in Wales?
3. Access to return interview services in Wales remain unequal, with not all regions commissioning independent return interview services. What is Welsh Government going to do to make sure all care-experienced children in Wales can access return interview services if they wish to?
4. Can Welsh Government provide an update on what it is doing to improve data collection and availability regarding children missing from care and children at risk of or victims of exploitation?
5. Do Welsh Government have a timeline for when they plan to update the All-Wales Practice Guides for safeguarding children missing from home or care?
6. Will Welsh Government create a national strategy to tackle the issue of child criminal exploitation in Wales, including the introduction of a statutory definition of child criminal exploitation and a funding plan to support intervention services?
7. Out of area placements often mean that children moved away from their friends, family and support network and as a result, they may 'go missing' to return to be among their

support network within their home local authorities. NYAS Cymru is concerned that the Part 1 of the Health and Social Care (Wales) Bill may result in more children being placed outside of their local areas and lead to an increase in missing incidents:

- What steps will Welsh Government to take ensure that there is not an increase of children moved out of area as a result of the introduction of the Bill?
- What steps will Welsh Government take to make sure there is not an increase in missing incidents amongst care-experienced children as a result of the Health and Social Care (Wales) Bill?
- Would Welsh Government consider making the offer of an independent return interview a statutory right under Part 1 of the Health and Social Care (Wales) Bill as a safeguarding tool to mitigate against any unintended negative consequences of the elimination of profit from children's social care?

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 4.1

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc
ac Addysg**

**Children, Young People
and Education Committee**

Jane Hutt AS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant, Cyfiawnder Cymdeithasol, Trefnydd a'r Prif Chwip

Dawn Bowden AS

Y Gweinidog Gofal Cymdeithasol

18 Gorffennaf 2024

Lleihau troseddoli plant ac oedolion ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal yng Nghymru: Pecyn Cymorth Ymarferol i Weithwyr Proffesiynol a chyllid ar gyfer Cartref Plant Diogel Hillside

Annwyl Jane a Dawn,

Fel y gwyddoch, rydym wrthi yn casglu tystiolaeth fel rhan o'n hymchwiliad i 'blant a phobl ifanc sydd ar yr ymylon'. Mae'r ymchwiliad yn canolbwyntio ar blant sydd ar goll a phlant a phobl ifanc sydd wedi'u troseddoli. Ceir rhagor o fanylion am ein hymchwiliad, gan gynnwys ei gylch gorchwyl, ar [ein tudalennau gwe](#).

Pecyn cymorth Pobl Goll

Ddydd Iau 27 Mehefin roeddwn yn bresennol mewn cyfarfod o'r Grŵp Llywio [Methu'r Pwynt](#), a gynhaliwyd gan Wasanaeth Eiriolaeth Ieuencid Cenedlaethol (NYAS) Cymru. Yn ystod y cyfarfod buom yn siarad am y [Pecyn cymorth Pobl Goll](#), a ariannwyd gan y 4Cs, a gefnogwyd gan Lywodraeth Cymru, ac a ddatblygwyd ar y cyd â Llamau a Claire Sands yr arbenigwraig ar ddad-droseddoli. Mae'r pecyn cymorth yn cynnig dulliau ymarferol, adnoddau ac enghreifftiau o arferion da i weithwyr proffesiynol amlasiantaethol i leihau'r achosion o droseddoli plant ac oedolion ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Clywais gan berson ifanc mewn gofal, ei gofalwr maeth a gweithwyr proffesiynol gwahanol o gwmpas y bwrdd, fod y pecyn cymorth yn adnodd rhagorol.

Roedd yn gadarnhaol iawn clywed bod Llywodraeth Cymru wedi cefnogi datblygiad y pecyn cymorth. Ond cefais fy synnu o glywed pryderon gan y Grŵp Llywio bod dyfodol y pecyn cymorth yn ansicr

Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565

Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565



**Senedd Cymru
Welsh Parliament**

Tudalen y pecyn 88

oherwydd nad yw Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu swm cymharol fach o gyllid blynyddol i'w gynnal yn y dyfodol.

Byddwn yn ddiolchgar o gael eich asesiad o'r hyn y mae'r pecyn cymorth wedi'i gyflawni hyd yma, ac amlinelliad o ba gynlluniau, os o gwbl, sydd gan Lywodraeth Cymru i ddarparu cyllid rheolaidd yn y dyfodol.

Cyllid ar gyfer Cartref Plant Diogel Hillside

Ddydd Mercher 10 Gorffennaf, gwnaethom ymweld â Chartref Plant Diogel Hillside yng Nghastell-nedd. Fel y gwyddoch, mae'r cartref plant yn cael ei ariannu'n gyffredinol gan awdurdodau lleol (yn achos plant a leolir yn y cartref o dan orchymyn llety diogel) a chan y Gwasanaeth Ieuencid yn y Ddalfa (yn achos plant yn y ddalfa neu sydd wedi'u dedfrydu i gyfnod cadw ieuencid). Ar hyn o bryd, mae rhagor o blant wedi'u derbyn i'r Cartref ar sail llesiant gan yr awdurdod lleol na chan y Gwasanaeth Ieuencid yn y Ddalfa.

Clywsom fod Llywodraeth y DU wedi gwneud buddsoddiadau sylweddol i gynnal capasiti ac ehangu'r ddarpariaeth mewn cartrefi plant diogel yn Lloegr. Eglurodd y staff fod cartrefi plant diogel yn Lloegr yn cael darpariaeth wedi'i chomisiynu gan GIG Lloegr a'r Adran Addysg yn ogystal ag unrhyw ddarpariaeth a ddarperir gan y cartref diogel ei hun i ddarparu gwasanaethau iechyd ac addysg i blant yn y Cartref. Dywedwyd wrthym nad yw Hillside yn cael darpariaeth ychwanegol gyfatebol, a bod yn rhaid iddo dalu am wasanaethau iechyd gan GIG Cymru a gwasanaethau addysg gan yr awdurdod lleol allan o'i gyllideb ei hun. Dywedwyd wrthym mai goblygiadau hyn yw bod rhagor o adnoddau ariannol ar gael fesul plentyn ar gyfer cartrefi plant diogel yn Lloegr nag sydd ar gyfer plant yn Hillside.

Rydym yn pryderu ei bod yn ymddangos bod plant bregus sy'n mynychu Hillside, boed wedi'u lleoli gan awdurdod lleol neu gan y Gwasanaeth Ieuencid yn y Ddalfa, o dan anfantais ariannol o gymharu â phlant sy'n cael eu lleoli mewn cartrefi plant diogel yn Lloegr.

A oes modd i chi:

- egluro'r trefniadau ariannu ar gyfer Cartref Plant Diogel Hillside (arian refeniw ac arian cyfalaf), gan gynnwys mewn perthynas â chyllid ar gyfer gwasanaethau addysg a gwasanaethau iechyd ar gyfer plant yn y Cartref;
- nodi'r darpariaethau deddfwriaethol perthnasol y mae'r trefniadau ariannu hynny'n tarddu ohonynt; a
- nodi eich dealltwriaeth o'r gwahaniaethau yn y prosesau comisiynu ac ariannu rhwng Cartref Plant Diogel Hillside a chartrefi cyfatebol yn Lloegr, a'r rhesymau dros y gwahaniaeth hwnnw?

Byddwn yn gwerthfawrogi cael eich ymateb i'r llythyr hwn erbyn dydd Gwener 30 Awst 2024 fan bellaf.

Yn gywir,



Buffy Williams AS,
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Children, Young People and Education Committee

Sam Rowlands AS
Cadeirydd Dros Dro y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565

Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

18 Gorffennaf 2024

Ynghylch: Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru)

Annwyl Sam,

Yn dilyn fy llythyr dyddiedig 20 Mehefin 2024, gweler Atodiad A i gael gwybod ein barn ar y darpariaethau hynny ym Mil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) ("y Bil") yr ydym wedi casglu tystiolaeth yn eu cylch yn ystod y Chweched Senedd. Dylwn dynnu sylw at y ffaith bod unrhyw farn a glywsom am gyfyngu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal yn ymwneud â'r cynlluniau yn y parth cyhoeddus ar y pryd (hydref 2022 i haf 2023) ynghylch bwriad polisi Llywodraeth Cymru.

Yn ogystal â'n safbwyntiau a amlinellir yn Atodiad A ar ddarpariaethau perthnasol yn y Bil, rydym yn credu bod angen diwygio'r system ofal yn radical mewn meysydd sydd o fewn cwmpas eang y Bil, ond nad ydynt yn cael sylw ynddo ar hyn o bryd. Mae'r meysydd polisi a nodir yn Atodiad B yn ymwneud yn uniongyrchol â naill ai lleoliadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a/neu reoleiddio'r gwasanaethau gofal cymdeithasol a'r gweithlu gofal cymdeithasol, ac felly gellid ystyried yn rhesymol eu bod yn dod o fewn cwmpas y Bil. Rydym yn credu y dylent fod wedi cael eu cynnwys yn y Bil i roi effaith i'r newidiadau radical i'r system ofal y mae plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal a'u teuluoedd yn eu haeddu.

Rwy'n gobeithio y bydd ein barn yn ddefnyddiol i chi wrth i chi ddod i gasgliadau am y Bil yn eich adroddiad Cyfnod 1.

Yn gywir,



Buffy Williams AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.



Atodiad A: Ein barn ar ddarpariaethau ym Mil lechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) sy'n berthnasol i'n gwaith yn ystod y Chweched Senedd

Pennod 1: Cyfyngiadau ar elw wrth ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant

Cyfyngu ar wneud elw wrth ddarparu gwasanaethau cartrefi gofal a ddarperir yn gyfan gwbl neu'n bennaf i blant, gwasanaethau llety diogel a gwasanaethau maethu ("gwasanaethau plant o dan gyfyngiad")

Mae adrannau 2 i 9 o'r Bil yn rheoleiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol a ddarperir i blant, gan gynnwys:

- diwygio Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("Deddf 2016") i fewnosod darpariaeth newydd sy'n diffinio ystyr "gwasanaethau plant o dan gyfyngiad" at ddibenion cyfyngu ar wneud elw gan ddarparwyr gwasanaethau cartrefi plant, gwasanaethau llety diogel a gwasanaethau maethu;
- diwygio Deddf 2016 i nodi gofynion newydd ar gyfer ceisiadau i gofrestru mewn cysylltiad â gwasanaethau plant o dan gyfyngiad;
- gwneud trefniadau trosiannol ar gyfer darparwyr presennol gwasanaethau plant o dan gyfyngiad (a oedd wedi'u cofrestru cyn cyflwyno'r gofynion 'nid-er-elw' newydd).¹

Ni wnaeth ein hymchwiliad i ddiwygio radical ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal ystyried yn fanwl fwriad Llywodraeth Cymru i ddileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal. Roedd ein gwaith yn canolbwyntio ar ymrwymiad ar wahân y Rhaglen Lywodraethu i "ystyried cyfleoedd radical i ddiwygio'r gwasanaethau presennol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac yn gadael gofal."² Fodd bynnag, er nad oedd yn dod o fewn cylch gorchwyl yr ymchwiliad, cafodd yr ymrwymiad i "D[d]ileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal" ei godi'n aml serch hynny gan yr unigolion a'r sefydliadau a gyfrannodd at ein hymchwiliad.

Clywsom gefnogaeth gyffredinol i gael gwared ar elw o ofal plant, yn enwedig gan bobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal eu hunain.³ Roedd cefnogaeth eang ymhlith gweithwyr proffesiynol,

¹ Llywodraeth Cymru, 'Bil lechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) [FEL Y'I CYFLWYNWYD]', 20 Mai 2024

² Llywodraeth Cymru, 'Rhaglen Lywodraethu – Diweddariad', Ionawr 2022, tudalen 3

³ Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 1 Voices From Care Cymru; Senedd Cymru, 'Pwyllgor', Mawrth 2023, tudalen 23

academyddion a sefydliadau hefyd o ran bwriad y polisi. Fodd bynnag, roedd ganddynt bryderon sylweddol ynghylch sut y gellid ei roi ar waith. Clywsom y byddai newidiadau i'r farchnad gofal cymdeithasol ar y raddfa hon yn cymryd 10 i 15 mlynedd i'w gweithredu, ac y gallai cael gwared ar leoliadau sy'n gwneud elw cyn bod digon o leoliadau nid-er-elw yn ei gwneud hi'n anoddach fyth dod o hyd i leoliadau addas i blant.⁴

Daethom i'r casgliad i gefnogi'r *egwyddor* o ddileu elw o ofal plant. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod y dystiolaeth a gawsom yn dangos y gallai'r agenda 'dileu' waethygu digonolrwydd lleoliadau yng Nghymru ymhellach yn y tymor byr, wrth i ddarparwyr preifat dynnu lleoliadau yn ôl heb fod lleoliadau trydydd sector neu awdurdodau lleol ar gael i gymryd eu lle. Gwnaethom annog Llywodraeth Cymru i roi sylw manwl i'r pryderon y mynegodd randdeiliaid i ni ac i gynllunio amserlen weithredu yn unol â hynny.⁵

Rydym yn nodi, yn ôl Memorandwm Esboniadol y Bil, y bydd yn rhaid i ddarparwyr newydd sy'n cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru fod â statws nid-er-elw o 1 Ebrill 2026 ymlaen, ac y bydd yr holl ddarparwyr presennol sy'n gwneud elw yn ddarostyngedig i ddarpariaethau trosiannol o 1 Ebrill 2027 ymlaen.⁶ Rydym hefyd yn nodi bod y Bil yn gosod dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i ymgynghori ag "unrhyw bersonau sy'n briodol yn eu barn hwy" ynghylch hyd y trefniadau trosiannol ar gyfer darparwyr presennol.⁷

Casgliad 1. Yn seiliedig ar y dystiolaeth a gawsom, ein barn ni yw y byddai terfyn amser o 1 Ebrill 2027 i ddarparwyr presennol sy'n gwneud elw drosglwyddo i fod yn ddarparwyr nid-er-elw yn gwbl annigonol i liniaru'n llawn yn erbyn yr holl risgiau o leoli pob plentyn mewn lleoliadau gofal nid-er-elw llawn. Felly, rydym yn croesawu'r darpariaethau yn adran 4 o'r Bil, sy'n caniatáu i drefniadau trosiannol gael eu nodi mewn rheoliadau ar gyfer darparwyr presennol sy'n gwneud elw drosglwyddo i statws nid-er-elw. Fodd bynnag, rydym yn pryderu nad oes dyddiad gorffen penodol ar gyfer y trefniadau trosiannol hynny. Mae'n bwysig i'r sector yn gyffredinol - heb sôn am blant a phobl ifanc yn y system ofal, sydd â'r hawl i wybod pwy sy'n darparu eu gofal ac a ydynt yn elwa o wneud hynny - i gael eglurder ynghylch y dyddiad erbyn pryd y bydd elw yn cael ei ddileu o ofal plant. Felly, rydym yn annog Llywodraeth i nodi'n glir ddyddiad gorffen ar gyfer y trefniadau trosiannol, ar ôl ymgynghori'n llawn ac mewn modd adeiladol yn gyntaf gydag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid

⁴ Senedd Cymru, 'Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalen 24; Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Chwefror 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 83; Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Tachwedd 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 73; Senedd Cymru, 'Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Canfyddiadau digwyddiadau i randdeiliaid', Mawrth 2023, tudalen 14

⁵ Senedd Cymru, 'Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Os nad nawr, pryd? Diwygio radical ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal', Mai 2023, tudalennau 107-108

⁶ Llywodraeth Cymru, 'Memorandwm Esboniadol Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru)', Mai 2024, tudalen 148

⁷ Llywodraeth Cymru, 'Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) [FEL Y'I CYFLWYNWYD]', 20 Mai 2024, paragraff 1(4) o'r Atodlen 1A newydd yn adran 4



allweddol eraill er mwyn sicrhau nad yw diffyg lleoliadau nid-er-elw yn gwthio plant i lety anghofrestredig nad yw'n ddiogel.

Lleoli plant y tu allan i ardal yr awdurdod lleol sy'n lleoli plant

Mae adran 10 yn diwygio adran 75 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014") i bennu bod rhaid i awdurdod lleol gymryd "pob cam rhesymol i sicrhau" llety ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn hytrach na "chamau sy'n sicrhau, i'r graddau y bo'n rhesymol ymarferol" fel y nodir ar hyn o bryd o dan Ddeddf 2014. O dan is-adran 1, mae'n ofynnol i'r llety hwn fod "o fewn ardal yr awdurdod, neu'n agos iddi" yn hytrach na'r gofyniad presennol iddo fod "yn ardal yr awdurdod".⁸

Mae Memorandwm Esboniadol y Bil fel y'i cyflwynwyd yn egluro'r bwriad polisi ar gyfer y newid hwn:

*Mae hyn yn galluogi awdurdodau lleol i wneud trefniadau gydag awdurdodau lleol eraill i ddatblygu cartrefi plant newydd a lleoliadau gofal maeth newydd. Mae'n cydnabod y gall amgylchiadau godi pan all plentyn sydd wedi ei leoli y tu allan i ardal yr awdurdod lleol fod yn agosach at ei gymuned gartref na phe bai'n cael ei leoli mewn rhan wahanol o ardal yr awdurdod lleol."*⁹

Rydym yn cefnogi unrhyw newidiadau deddfwriaethol i ganiatáu i awdurdodau lleol wneud y penderfyniad cywir ar gyfer pob plentyn ar sail unigol. Rydym yn gwerthfawrogi efallai mai lleoli plant y tu allan i'w hawdurdod lleol yw'r penderfyniad cywir, er enghraifft os yw'r canlynol yn berthnasol:

- Y lleoliad y tu allan i'r ardal yw'r lleoliad ansawdd uchel agosaf i gartref y plentyn. Yn ystod ein hymchwiliad yn 2023, clywsom yn gyson gan blant a gweithwyr proffesiynol y dylid lleoli plant mor agos â phosibl at y man lle y cafodd y plentyn ei roi mewn gofal, oni bai bod risg difrifol i ddiogelwch y plentyn drwy wneud hynny.¹⁰ Dywedodd y Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol wrthym "There's not one children's services department across Wales that will say that that isn't an absolute priority [but that] Finding those placements is difficult."¹¹
- Mae pryderon o ran diogelwch y plentyn yn ei awdurdod cartref. Gallai hyn fod oherwydd bod y plentyn mewn perygl o gael ei gam-drin (yn emosiynol neu fel arall) neu gael ei

⁸ Llywodraeth Cymru, 'Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) [FEL Y'I CYFLWYNWYD]', 20 Mai 2024

⁹ Llywodraeth Cymru, 'Memorandwm Esboniadol Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru).', Mai 2024, tudalen 170

¹⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 1 Voices From Care Cymru; Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC39 Tystiolaeth gan Plant yng Nghymru, gydag aelodau o'r Grŵp Polisi Elusennau Plant Cenedlaethol, ac ar eu rhan; Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC43 Cymdeithas y Plant

¹¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC39 Tystiolaeth gan Plant yng Nghymru, gydag aelodau o'r Grŵp Polisi Elusennau Plant Cenedlaethol, ac ar eu rhan; Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 43 Cymdeithas y Plant



ecsbloetio.¹² Yn ein hymchwiliad presennol, 'plant sydd ar yr ymylon', rydym yn clywed yn rheolaidd am blant sy'n cael eu symud allan o'u hawdurdod cartref lleol (neu hyd yn oed rhwng Cymru a Lloegr) i'w cadw i ffwrdd o weithgarwch troseddol, neu i'w hamddiffyn lle mae risg uniongyrchol i fywyd y plentyn.¹³

Fodd bynnag, mae rhesymau fel hyn yn debygol o fod yn berthnasol i gyfran fach o blant. I'r rhan fwyaf, dylid osgoi lleoliadau y tu allan i'r ardal lle bynnag y bo hynny'n bosibl. Yn ein hymchwiliad yn 2023, roedd llawer o'r dystiolaeth a gawsom yn awgrymu bod plant yn aml yn cael eu lleoli ymhell o'u cartref neu mewn lleoliadau blaenorol nid oherwydd ei fod er lles gorau'r plentyn i wneud hynny, ond oherwydd nad oedd unrhyw leoliadau o ansawdd yn ei ardal leol.¹⁴ Yn ystod gwaith ymgysylltu, dywedodd un person ifanc o Abertawe wrthym ei fod wedi cael ei roi mewn cartref preswyl yn Lloegr. Nid oedd ganddo ddim cefnogaeth o gwbl mor bell oddi wrth bawb yr oedd yn ei adnabod. Dywedodd wrthym ei fod yn teimlo fel "un o'r rhai sydd wedi cael ei anghofio".¹⁵

Beth bynnag yw'r rheswm dros leoliad y tu allan i'r ardal, a pha mor bell ydyw o gymuned gartref y plentyn, gall gwaith amlasiantaethol gwael a methiant i ddilyn gweithdrefnau adrodd sefydledig roi unrhyw blentyn mewn lleoliad y tu allan i'r ardal mewn perygl o niwed. Cyflwynodd Cymdeithas y Plant dystiolaeth fanwl yn egluro beth mae'n rhaid i awdurdodau lleol ei wneud os ydynt yn lleoli plentyn mewn ardal awdurdod lleol arall. Mae hyn yn cynnwys cwblhau a rhannu Protocol Hysbysu y Tu Allan i'r Ardal Cymru a Ffurflen Gwybodaeth Plentyn ar gyfer pob plentyn, sy'n nodi gwybodaeth hollbwysig, gan gynnwys manylion gweithiwr cymdeithasol y plentyn ac unrhyw anghenion penodol sydd gan y plentyn, neu risgiau yn ymwneud â'r plentyn. Daeth Cymdeithas y Plant i'r casgliad a ganlyn:

"The primary finding from the responses we received from local authorities was the lack of a consistent approach to information sharing when a child is placed in another local authority area, or the lack of information sharing at all. These practices mean that some children do not receive the care and support they need when they are placed in a care setting far away from their homes, thereby increasing the risk both of unsuccessful placements and children not receiving

¹² Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC43 Cymdeithas y Plant; Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC7 Rhiant Maeth; Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC1 Voices from Care Cymru

¹³ Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM28 Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol Cymru. Rydym wedi cael tystiolaeth arall o'n digwyddiadau rhanddeiliaid a'n hymweliadau ymgysylltu. Bydd crynodebau o ganfyddiadau'r digwyddiadau hyn yn cael eu cyhoeddi yn fuan.

¹⁴ Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Chwefror 2023, Cofnod y Trafodion, paragraffau 9 ac 19-20; Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC3 Unigolyn; Tystiolaeth ysgrifenedig, Arolygiaeth Gofal Cymru (gwybodaeth ychwanegol); Senedd Cymru, 'Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalennau 23-25

¹⁵ Senedd Cymru, 'Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalen 23



appropriate support if they face particular risks, such as abuse, exploitation, or a history of missing episodes.”¹⁶

Cawsom ein hatgoffa gan Plant yng Nghymru, gydag aelodau o'r Grŵp Polisi Elusennau Plant Cenedlaethol, ac ar eu rhan, am ganlyniadau trasig methu â chyflawni cyfrifoldebau rhannu gwybodaeth yn ddigonol. Roedd eu cyflwyniad ysgrifenedig yn ein hatgoffa bod yr adolygiad ymarfer plant yn dilyn marwolaeth Logan Mwangi wedi canfod problemau ymarfer sydd wedi'u gwreiddio'n ddwfn yn lleol, gan gynnwys diffyg trefniadau priodol ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau a diffyg hyder proffesiynol wrth adrodd am bryderon.¹⁷

Casgliad 2. Rydym yn pryderu ynghylch sut y bydd y darpariaethau a nodir yn adran 10 yn cael eu dehongli a'u gweithredu, yn enwedig yng nghyd-destun yr agenda ddileu ehangach, yr ydym yn ofni y bydd yn rhoi pwysau ychwanegol ar nifer y lleoliadau sydd ar gael. Byddai gennym bryderon difrifol pe bai'r darpariaethau yn adran 10 yn arwain at fwy o blant yn cael eu lleoli y tu allan i'w hardal gartref. Y safbwynt hollbresennol ar draws y dystiolaeth yr ydym wedi'i chymryd yn ystod ein hymchwiliad yn 2023 a'n hymchwiliad presennol, 'plant sydd ar yr ymylon', yw bod lleoliadau y tu allan i'r ardal, i'r rhan fwyaf o blant, yn cynyddu'r risg y bydd plant yn mynd ar goll, yn cael eu troseddoli neu'n cael eu hecsbloetio'n rhywiol, heb sôn am y ffaith bod lleoliadau y tu allan i'r ardal yn ei gwneud hi'n anoddach iddynt gynnal perthynas â'u teulu biolegol neu ffrindiau neu osgoi'r angen i symud ysgolion.

Hyd yn oed pan fo'n benderfyniad cywir i leoli plentyn mewn awdurdod lleol gwahanol, **rhaidd** i awdurdodau lleol ddilyn y rheoliadau a'r canllawiau sy'n ymwneud â rhannu gwybodaeth yn gyson er mwyn sicrhau nad yw bod mewn lleoliad y tu allan i'r ardal yn peryglu ansawdd y gwasanaeth diogelu a ddarperir i unrhyw blentyn.

Lleoli plant mewn llety anghofrestredig

Mae adran 13 yn nodi'r ffyrdd y mae plant sy'n derbyn gofal i'w lletya. Mae Nodyn Esboniadol y Bil yn nodi y gall lleoliad fod "mewn llety anghofrestredig (dros dro neu mewn achosion brys)".¹⁸ Nodir y mecanweithiau ar gyfer lleoli plant yn adran 13(3), sy'n mewnosod adrannau 81A i 81D yn Neddf 2014.

- Mae adran 81A(2) yn nodi bod yn rhaid i awdurdod lleol leoli plentyn yn y lleoliad mwyaf priodol, yn ei farn ef. Mae adran 81A(3) wedyn yn nodi ystyr lleoliad yn y cyd-destun hwnnw, gan gynnwys lleoliad gyda rhiant maeth awdurdod lleol neu mewn cartref plant.

¹⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC43 Cymdeithas y Plant

¹⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC39 Plant yng Nghymru, gydag aelodau o'r Grŵp Polisi Elusennau Plant Cenedlaethol, ac ar eu rhan

¹⁸ Llywodraeth Cymru, 'Memorandwm Esboniadol Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru)', Mai 2024, tudalen 165

- Mae adran 81A(4) yn nodi bod yn rhaid i riant maeth awdurdod lleol sy'n darparu lleoliadau nad yw'n ffrind, yn berthynas neu'n gysylltiedig fel arall â'r plentyn fod wedi'i awdurdodi, a bod rhaid i gartrefi plant gael eu "cofrestru".
- Fodd bynnag, mae 81B(1) a (2) yn nodi, os yw awdurdod lleol yn credu mai'r lleoliad mwyaf priodol yw gyda rhiant maeth awdurdod lleol neu gartref plant, ond na all yr awdurdod lleol gydymffurfio â'r gofyniad i'r lleoliad gael ei awdurdodi neu ei gofrestru yn y drefn honno, gallant wneud cais i Weinidogion Cymru i gymeradwyo'r lleoliad. Gelwir lleoliadau o'r fath yn "lleoliadau atodol". Mae'r wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys mewn cais o'r fath, a darpariaethau ynghylch sut y gallai Gweinidogion Cymru ymateb, yn dilyn yn is-adrannau (3) i (8).

Mae adran 75D newydd o Ddeddf 2014 sydd i'w mewnosod gan adran 12 o'r Bil, yn darparu bod yn rhaid i awdurdodau lleol gyflwyno adroddiad ar nifer y ceisiadau y maent wedi'u gwneud yn y flwyddyn ariannol honno am gymeradwyaeth i leoli plant mewn "lleoliad atodol".¹⁹

Mae'r adrannau hyn sydd wedi cael eu mewnosod yn ddiweddar yn darparu ar gyfer ffordd y gall awdurdodau lleol leoli plentyn gyda gofalwr maeth heb ei awdurdodi, neu gartref plant heb anghofrestredig, gyda chymeradwyaeth Gweinidogion Cymru. Nid oes terfyn amser gofynnol ar gyfer cyflwyno'r gymeradwyaeth hon ar wyneb y Bil.

Ein pryderon cyffredinol ynghylch y darpariaethau sy'n ymwneud â lleoliadau anghofrestredig yn y Bil

Mewn llythyr atoch dyddiedig 28 Mehefin 2024, dywedodd y Gweinidog Gwasanaethau Cymdeithasol:

Y bwriad [o adran 13] oedd cyfeirio at lety lle nad oes unrhyw ofyniad i gofrestru gan nad yw'r lleoliad gyda gofalwr maeth a chan fod y trefniadau y tu hwnt i'r diffiniad o wasanaeth "cartref gofal". Mae amrywiaeth o amgylchiadau lle y gall awdurdod lleol benderfynu lleoli plentyn mewn lleoliad heblaw gofal maeth neu gartref i blant. Yr enghraifft fwyaf cyffredin o hyn yw pan fydd awdurdod lleol yn gosod plentyn hŷn 16 neu 17 oed mewn llety â chymorth fel paratoad ar gyfer byw'n annibynnol.

Rydym yn ymwybodol bod defnydd mwy diweddar o'r termau "llety anghofrestredig" a "llety heb ei reoleiddio" wedi tueddu i wahaniaethu rhwng y ddau beth. Mae'r term llety anghofrestredig yn cael ei ddefnyddio i gyfeirio at drefniadau sy'n dod o fewn cwrdd gweithgarwch lle mae gofyniad i gofrestru ond lle nad yw'r darparwr wedi'i gofrestru mewn gwirionedd ac mae llety heb ei

¹⁹ Llywodraeth Cymru, 'Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) [FEL Y'L CYFLWYNWYD]', 20 Mai 2024



*reoleiddio yn cael ei ddefnyddio i gyfeirio at drefniadau sy'n disgyn y tu allan i gwmpas gweithgarwch a reoleiddir ac felly lle nad oes angen cofrestru. Nid dyna ystyr "anghofrestredig" yma."*²⁰

Fodd bynnag, nid yw adran 13 yn cyfeirio at lety "lle nad oes unrhyw ofyniad i gofrestru" (i'r gwrthwyneb, mewn gwirionedd: mae adran 81A(4) sydd wedi'i mewnosod yn ddiweddar yn nodi'n benodol y dylai gofalmwyr maeth awdurdodau lleol gael eu hawdurdodi ac y dylid cofrestru cartrefi plant). Nid yw ychwaith yn cyfeirio at blant 16-17 oed yn benodol. Nid yw'n gwahaniaethu mewn unrhyw ffordd rhwng llety lle mae angen cofrestru/awdurdodi a phan nad yw'n berthnasol.

Ar adeg ysgrifennu hwn, mae'r defnydd o lety anghofrestredig ar gyfer plant mewn gofal yn anghyfreithlon. Yn ystod ein hymchwiliad yn 2023, nododd Arolygiaeth Gofal Cymru fod lleoliadau anghofrestredig:

*"...yn anghyfreithlon ac nid oes ganddynt y mesurau diogelu ar waith sy'n dod gyda chofrestru. Yn aml mae awdurdodau lleol yn gweithredu'r gwasanaethau hyn yn uniongyrchol, gan adleoli eu staff eu hunain iddynt neu ddefnyddio gweithwyr asiantaeth. Mae llety yn cynnwys llety AirBnB sydd, mewn rhai achosion, wedi golygu bod plant wedi gorfod symud sawl gwaith o'r naill eiddo i'r llall. Ar adegau, mae'r lleoliadau hyn wedi bod y tu allan i ardal leol y plentyn ac mae llawer o leoliadau na allant ddiwallu eu hanghenion therapiwtig a/neu ofal. Ym mhob achos mae AGC yn ystyried a yw'r trothwy ar gyfer cynnal ymchwiliad troseddol ac erlyn wedi'i fodloni gan gydnabod, ar yr un pryd, ddyletswydd yr awdurdod lleol i ofalu am y plentyn."*²¹

Clywsom hefyd bryder wedi'i eirio'n gryf am y defnydd o leoliadau anghofrestredig yng Nghymru, gan gynnwys gan CAFCASS Cymru²² a'r Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Gymdeithasol:

*"In 35 years in social care, I've never seen a position like this, and it's frightening... Nobody wants to do this, it is a last resort. The alternative is driving around with the child in the social worker's car."*²³

Felly, gwnaethom argymhell y dylai Llywodraeth Cymru a'r Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Gymdeithasol gyhoeddi ar y cyd, heb fod yn hwyrach na mis Rhagfyr 2023, gynllun gweithredu sy'n nodi sut y byddant yn atal y defnydd o lety anghofrestredig anghyfreithlon yng Nghymru. Yn ei hymateb, dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod wedi sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen awdurdodau

²⁰ 'Llythyr gan y Gweinidog Gofal Gymdeithasol at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Gymdeithasol', 28 Mehefin 2024, tudalen 10

²¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, Arolygiaeth Gofal Cymru (gwybodaeth ychwanegol)

²² Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 46 Cafcass Cymru

²³ Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Mawrth 2023, Cofnod y Trafodion, paragraffau 69 a 71

lleol i ystyried y mater o wasanaethau sy'n gweithredu heb gofrestru o dan ei Bwrdd Rhaglen Dileu Elw, y mae disgwyl iddo adrodd yn ddiweddarach yn 2023.²⁴ Hyd yn hyn, nid ydym yn ymwybodol bod adroddiad wedi cael ei gyhoeddi gan y grŵp. Fodd bynnag, canfu adroddiad gan Arolygiaeth Gofal Cymru ym mis Hydref 2023 am gartrefi gofal plant sy'n gweithredu heb gofrestriad:

Er bod rhai plant yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol mewn gwasanaethau dros dro sy'n gweithredu heb gofrestriad, nid yw'r un peth yn wir am eraill...

Yn aml, nid yw'r safleoedd a ddefnyddir ar gyfer gwasanaethau anghofrestredig a/neu safon y trefniadau a wneir i blant yn cyrraedd y safonau gofynnol i gael eu cofrestru.

Mewn sawl achos, bu'r trefniadau staffio i ddarparu gofal a chymorth ar sail ad hoc ac yn newidiol iawn. Mae'r ffaith bod staff nad ydynt wedi'u hyfforddi i ddiwallu anghenion gofal a chymorth y plentyn neu'r person ifanc a'r ddibyniaeth ormodol ar staff asiantaeth yn peri pryder penodol."²⁵

Defnyddio Gorchmynion Amddifadu o Ryddid (DoLs) ochr yn ochr â lleoliadau anghofrestredig

Yn ein hadroddiad yn 2023, 'Os nad nawr, pryd?' ("ein hadroddiad 2023"), gwnaethom nodi gysylltiad rhwng prinder llety diogel a'r defnydd cynyddol o Orchmynion Amddifadu o Ryddid (DoLs).

Dywedodd y Gwir Anrhydeddus Syr Andrew McFarlane, Llywydd yr Is-adran Teuluoedd, wrthym fod diffyg darpariaeth llety diogel i bobl ifanc yng Nghymru a Lloegr, a bod hwnnw'n brinder dybryd.²⁶ Esboniodd y Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol y gallai awdurdodau lleol weithiau ffafrio DoL yn lle llety diogel oherwydd, o leiaf wrth ddefnyddio amddifadu o ryddid, y byddai plant yn cael eu cadw'n lleol ac yn eu cadw mewn amgylchedd sydd o bosibl yn fwy diogel, yn hytrach na'u bod yn gorfod mynd o bosibl i lety diogel yn Durham.²⁷

Rydym yn ofni y gallai'r arfer o wneud cais am DoL ar gyfer plentyn a'i roi mewn llety anghofrestredig gynyddu o ganlyniad uniongyrchol i'r Bil hwn. Gall awdurdod lleol leoli plentyn sy'n destun DoL mewn gofal preswyl, ond os nad yw lleoliad gofal preswyl ar gael efallai na fydd gan yr awdurdod lleol unrhyw ddewis ond lleoli'r plentyn mewn llety anghofrestredig.²⁸ Rydym yn mynegi pryder uchod y

²⁴ Llywodraeth Cymru, 'Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn dwyn y teitl 'Os nad nawr, pryd? Diwygio radical ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal', 5 Gorffennaf 2023, tudalennau 16-17. Cyfeirir at y grŵp gorchwyl a gorffen yma: Llywodraeth Cymru, 'Dileu elw o ofal plant: diweddariad', 20 Tachwedd 2023

²⁵ Arolygiaeth Gofal Cymru, 'Adroddiad ar gartrefi gofal i blant sy'n gweithredu heb gofrestriad', Hydref 2023, tudalen 5

²⁶ Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 8 Chwefror 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 149

²⁷ Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Mawrth 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 106

²⁸ Community Care, 'Courts to stop monitoring regulation of unregistered placements for children deprived of liberty', 13 Hydref 2023



gallai'r Bil hwn arwain at brinder ychwanegol o leoliadau gofal preswyl²⁹ o ganlyniad i'r cyfyngiadau arfaethedig ar wneud elw, o leiaf yn y tymor byr. Felly, rydym yn pryderu y gallai galluogi lleoliadau atodol mewn lleoliadau anawdurdodedig/anghofrestredig o dan adran 81B newydd Deddf 2014, yn erbyn cefndir prinder difrifol o lety diogel a phreswyl, arwain at gynnydd sylweddol yn y defnydd o DoLs mewn lleoliadau anghofrestredig wrth i awdurdodau lleol gael trafferth i leoli ein plant mwyaf agored i niwed mewn llety diogel neu hyd yn oed mewn cartrefi gofal preswyl.

Casgliad 3. Rydym yn credu y byddai'r darpariaethau a nodir yn adran 13 o'r Bil yn arwain at risg annerbyniol o uchel o ddefnydd cynyddol o lety anghofrestredig na fyddai'n darparu'r lefelau o ofal a chymorth y mae plant a phobl ifanc mewn gofal yn eu haeddu. Rydym yn pryderu'n fawr am y darpariaethau newydd hyn, sy'n darparu llwybr i awdurdodau lleol leoli plant mewn cartrefi plant nad ydynt wedi'u cofrestru gydag awdurdodau lleol neu gyda rhieni maeth nad ydynt wedi'u hawdurdodi gan awdurdodau lleol. Rydym yn nodi'r mesurau diogelu a nodir yn adrannau newydd 81B(3) i (8) o Ddeddf 2014, a'r trefniadau adrodd gorfodol yn adran 75D. Ond nid ydym wedi ein hargyhoeddi bod y darpariaethau hyn yn lliniaru'r risgiau o normaleiddio lleoliadau anghofrestredig. Mae ein pryderon yn cael eu gwaethygu oherwydd y prinder tymor byr tebygol o leoliadau nid-er-elw i blant, fel y nodwyd gennym uchod, a allai arwain awdurdodau lleol i leoli hyd yn oed mwy o blant mewn llety anghofrestredig, gan gynnwys nifer cynyddol o blant sydd wedi cael eu hamddifadu o'u rhyddid.

Atodiad B: Newidiadau polisi y credwn y dylid eu cynnwys yn y Bil

Llwythi achos gweithwyr cymdeithasol plant

Yn ein hadroddiad yn 2023, daethom i'r casgliad:

*"... bod cryfhau'r gweithlu gofal cymdeithasol yn allweddol i leihau cyfraddau'r plant sy'n dod i mewn i'r system ofal, a gwella bywydau'r plant hynny lle mai gofal yw'r penderfyniad cywir ar eu cyfer."*³⁰

Daethom i'r casgliad hwn yn seiliedig ar dystiolaeth niferus a chyson y bobl ifanc eu hunain yr effeithiwyd yn uniongyrchol ar eu bywydau gan ddiffyg capasiti o fewn y gweithlu gofal cymdeithasol

²⁹ Canfu erthygl ddiweddar gan y BBC fod tri chwarter y 314 o gartrefi plant sy'n gweithredu yng Nghymru yn cael eu rhedeg gan gwmnïau preifat. Gweler: BBC, ['Wales plans to remove profit from children's care'](#), 20 Mai 2024

³⁰ Senedd Cymru, ['Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Os nad nawr, pryd? Diwygio radical ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal'](#), Mai 2023, tudalen 36

a barn arweinwyr gwaith cymdeithasol, a ddywedodd wrthym yn uniongyrchol: "The most radical reform that could be realised in this area is a reduction in workload for our social workers".³¹

Gwnaethom alw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno deddfwriaeth wedi'i modelu ar Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 i osod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gyfrifo uchafswm y llwythi achosion diogel a hylaw ar gyfer gwahanol grwpiau o weithwyr cymdeithasol, ac i gymryd pob cam rhesymol i gynnal yr uchafswm llwythi achosion hynny. Ochr yn ochr â'r deddfwriaeth arfaethedig honno, gwnaethom argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal cynllun digonolrwydd y gweithlu cynhwysfawr, gan edrych ar lwybrau i mewn i waith cymdeithasol, a dull cenedlaethol o ymdrin â chyflog ac amodau gweithwyr cymdeithasol, fel y dull sy'n goruchwyllo staff addysgu yng Nghymru.

Dywedodd ein hadroddiad yn glir, "nid ydym yn galw am gapiau deddfwriaethol mympwyol ar lwythi achosion", a chydabu na fyddai diwygio deddfwriaethol, ynddo'i hun, yn lleihau llwythi gwaith gweithwyr cymdeithasol.³²

Gwrthododd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn, gan ddadlau bod "cymhlethdod achosion yn amrywio'n sylweddol, ac felly gallai fod yn wrthgynhyrchol pennu uchafswm y llwythi achosion." Yn lle hynny, awgrymodd y byddai gwaith a wneir gan Gofal Cymdeithasol Cymru ac eraill yn ymwneud â chynllunio'r gweithlu, a chan CLILC ar delerau ac amodau gwaith cymdeithasol, yn ysgogi gwelliannau i gapasiti gofal cymdeithasol.³³

Nodwn fod eich adroddiad ym mis Ebrill 2024 ar Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 wedi dod i'r casgliad a ganlyn:

Mae'n amlwg bod y Ddeddf wedi cryfhau'r gwaith o gynllunio'r gweithlu drwy amlygu lle mae'r bylchau yn y gweithlu presennol a rhoi tystiolaeth o nifer y nyrsys sydd eu hangen i ddiwallu anghenion cleifion. Ond, o ran sicrhau cyflenwad hirdymor, cynaliadwy o nyrsys, mae cymaint o ffactorau sy'n dylanwadu ar recriwtio a chadw staff nyrsio fel mai dim ond rhan o'r ateb y gall deddfwriaeth fod, yn hytrach na'r ateb cyfan.³⁴

Rydym yn credu bod cryfhau cynllunio'r gweithlu gofal cymdeithasol ar draws y 22 awdurdod lleol yng Nghymru yn ddigon o reswm ynddo'i hun i gymryd camau deddfwriaethol ar lwythi achosion

³¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 38 Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol

³² Senedd Cymru, 'Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Os nad nawr, pryd? Diwygiadau radical ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal', Mai 2023, tudalennau 36-37

³³ Llywodraeth Cymru, 'Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn dwyn y teitl "Os nad nawr, pryd? Diwygio radical ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal"', 5 Gorffennaf 2023, tudalen 2

³⁴ Senedd Cymru, 'Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016: Gwaith craffu ar ôl deddfu', Ebrill 2024



gweithwyr cymdeithasol. Ochr yn ochr â'n hargymhelliad cysylltiedig ar gyfer cynllun digonolrwydd y gweithlu cynhwysfawr a dull cenedlaethol o ymdrin â chyflogau ac amodau gwaith gweithwyr cymdeithasol, credwn y gallai dull deddfwriaethol hefyd ddechrau taith tuag at sicrhau llwythi achosion diogel a hylaw ar gyfer gweithwyr cymdeithasol plant. Byddai hyn yn galluogi'r gwaith cymdeithasol sy'n canolbwyntio ar berthnasoedd y dywedodd gweithwyr cymdeithasol eu hunain wrthym ei fod mor hanfodol er mwyn lleihau niferoedd y plant sy'n mynd i mewn i'r system ofal.

Rydym yn clywed trwy gydol ein hymchwiliad presennol i 'blant sydd ar yr ymylon' ar draws tystiolaeth ysgrifenedig, ein digwyddiadau rhanddeiliaid a'n gwaith ymgysylltu fod llwythi achosion gweithwyr cymdeithasol yn aml yn rhy uchel i gefnogi ein plant mwyaf agored i niwed yn effeithiol. Ysgrifennodd Barnardo's:

*"As with all areas of the social care workforce at this time, there are endemic issues around recruitment and retention of staff which makes it incredibly difficult to ensure that children always have access to the same worker and can build a trusting relationship. Welsh Government should invest in ensuring that social work across the board is an attractive career option with a focus on retaining experienced and trusted staff. The sector is in crisis, with high caseloads, long waiting lists and low morale. We must tackle this entrenched issue to improve outcomes – both in terms of staff themselves and the way that we can support children, young people and families."*³⁵

Casgliad 4. Mae'n resyn gennym nad yw Llywodraeth Cymru wedi cymryd unrhyw gamau yn y Bil i fynd i'r afael â llwythi achosion gweithwyr cymdeithasol plant. Rydym yn dal i bryderu nad yw'r gwaith a wnaed gan Gofal Cymdeithasol Cymru ac eraill, fel 'Cymru Iachach' a'i gynlluniau cyflawni sylfaenol, er eu bod yn werthfawr, yn debygol o arwain at y diwygiad radical y mae plant, eu teuluoedd, ac yn wir, gweithwyr cymdeithasol eu hunain yn ei haeddu.³⁶

³⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM21, Barnardo's Cymru. Gweler hefyd: Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM30, Canolfan Gyfreithiol y Plant Cymru. Mae llwythi achosion gweithwyr cymdeithasol hefyd wedi cael eu codi yn ystod gwaith o gasglu tystiolaeth anffurfiol. Bydd crynodeb o ganfyddiadau ein digwyddiadau rhanddeiliaid a'n hymweliadau ymgysylltu yn cael ei gyhoeddi cyn bo hir.

³⁶ Mae data Gofal Cymdeithasol Cymru yn dangos bod 6,736 o weithwyr cymdeithasol wedi'u cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru ym mis Mawrth 2022 – cynnydd o 3 y cant o'i gymharu â mis Mawrth 2021. Fodd bynnag, roedd y gweithlu gofal cymdeithasol yn ei gyfanrwydd 7 y cant yn llai ym mis Mawrth 2022 nag yr oedd ym mis Mawrth 2021. Hefyd ym mis Mawrth 2022: roedd nifer y swyddi gwaith cymdeithasol gwag wedi cynyddu 17 y cant o gymharu â 2021, ac roedd 12 y cant o weithwyr cymdeithasol yn cael eu cyflogi gan asiantaeth. Yng ngwanwyn 2023, dywed 77 y cant o weithwyr cymdeithasol fod cael gormod o waith neu beidio â chael digon o amser i'w wneud yn achosi straen yn y gwaith, ac mae 38 y cant yn anfodlon â'u swydd bresennol. Nid oes dim o'r data hwn wedi'u rhannu yn ôl gweithwyr gofal cymdeithasol gwasanaethau oedolion/plant. Gweler: Gofal Cymdeithasol Cymru, 'Cynllun cyflawni gweithlu gofal cymdeithasol 2024 i 2027', diweddarwyd ddiwethaf ar 7 Mehefin 2024

Cofrestru gofalwyr maeth a chreu cofrestr genedlaethol o leoliadau maeth

Fel y gwyddoch o'ch gwaith craffu ar y Bil hyd yma, mae digonolrwydd lleoliadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn bryder hollbwysig i'r sector. Yn ein hadroddiad yn 2023, gwnaethom drafod prinder lleoliadau maeth o ansawdd uchel, lleoliadau gofal preswyl, a llety diogel i bobl ifanc, a hyd yn oed rhoi bwriad Llywodraeth Cymru o'r neilltu i gyfyngu ar leoliadau sy'n gwneud elw.³⁷ Ar 31 Mawrth 2023, roedd 68.7 y cant o blant sy'n derbyn gofal yng Nghymru mewn lleoliad maeth (4,955 o blant), ac felly mae digonolrwydd lleoedd maeth o ansawdd uchel yn gwbl hanfodol i ddiwallu anghenion plant mewn gofal ledled Cymru.³⁸

Yn ystod ein gwaith casglu tystiolaeth ac ers hynny, clywsom straeon am blant y trawsnewidiwyd eu bywydau gan y gefnogaeth wych a gawsant gan ofalwyr maeth ymroddedig a chariadus. Yn anffodus, clywsom hefyd straeon torcalonnus am blant a oedd wedi cael eu lleoli gyda gofalwyr maeth nad oeddent yn addas i ofalu am blant. Dywedodd rhai pobl ifanc wrthym eu bod wedi cael eu cam-drin yn rhywiol, yn emosiynol a/neu'n gorfforol.³⁹

Dadleuodd y Rhwydwaith Maethu ac eraill dros greu gofrestr genedlaethol o ofalwyr maeth fel ffordd o gael gwell syniad o faint o ofalwyr maeth sydd gennym ledled Cymru, nifer y lleoliadau y maent yn eu darparu, eu lleoliad, a gwybodaeth berthnasol arall. Awgrymodd hefyd y dylai fod yn ofynnol i ofalwyr maeth gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, sef y corff a fyddai'n gyfrifol am gadw a chynnal y gofrestr arfaethedig. Cawsom ein darbwyllo gan y dadleuon a gyflwynwyd gan y Rhwydwaith Maethu, ac fe wnaethom argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ariannu ac yn darparu cofrestr genedlaethol o ofalwyr maeth yn unol â hynny.⁴⁰

Cafodd ein hargymhelliad ei dderbyn yn rhannol gan Lywodraeth Cymru, a ymrwymodd i archwilio "ar ba ffurf y gallai cofrestr genedlaethol yng Nghymru fod".⁴¹ Yn siomedig, mae'n amlwg o dystiolaeth ddiweddar y Rhwydwaith Maethu i'ch Pwyllgor nad yw'r gwaith yn mynd rhagddo:

"But we also know that we don't have a great deal of insight and knowledge as to where our foster carers are in Wales and who they are. In the radical reform inquiry, a register was put forward as a recommendation, and I would strongly urge that to ensure that this legislation does actually meet its full requirement that,

³⁷ Senedd Cymru, 'Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Os nad nawr, pryd? Diwygio radical ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal', Mai 2023, tudalennau 84-90, 95-96 a 102-103 yn y drefn honno

³⁸ StatsCymru, 'Plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth yn ôl awdurdod lleol a math o leoliad'

³⁹ Senedd Cymru, 'Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalen 23

⁴⁰ Senedd Cymru, 'Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Os nad nawr, pryd? Diwygio radical ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal', Mai 2023, tudalennau 87-90

⁴¹ Llywodraeth Cymru, 'Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn dwyn y teitl "Os nad nawr, pryd? Diwygio radical ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal"', 5 Gorffennaf 2023, tudalennau 12-13



*alongside this, we expedite the opening up of a social care register for foster carers in order for them to ensure that they have that same level of status as social workers and residential care workers. Other parts of the sector have that via the provision of the register for them, and I think we have an urgent need to do that in Wales, and I'm very grateful that it was accepted as a recommendation by a previous committee. What we need to do now is actually expedite it, because it's been over a year since that recommendation was accepted, and we still don't seem to have a great deal of progress in relation to that."*⁴²

Argymhelliad 1. Dylai'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ystyried argymell i Lywodraeth Cymru y dylid diwygio Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) i'w gwneud yn orfodol i ofalwyr maeth gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru er mwyn darparu lleoliadau maeth i blant sy'n derbyn gofal, a thrwy hynny gyflymu'r cynnydd tuag at sefydlu cofrestr genedlaethol o ofalwyr maeth.

Eiriolaeth ymweliad preswyl

Eiriolaeth ymweliad preswyl yw pan fydd cartref preswyl yn dynodi eiriolwr annibynnol i gynrychioli'r holl blant yn y cartref. Bydd yr eiriolwr yn cefnogi'r plant drwy ateb unrhyw gwestiynau sydd ganddynt am eu gofal, datrys anghydfodau, a chysylltu â gwasanaethau eiriolaeth eraill lle bo angen.

Yn ystod ein hymchwiliad i wasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal, cawsom ein hatgoffa gan y Gwasanaeth Eiriolaeth leuenctid Cenedlaethol fod eiriolaeth yng Nghymru – ac yn wir, sefydlu Comisiynydd Plant Cymru – wedi digwydd o ganlyniad i'r sgandal cam-drin plant yng Ngogledd Cymru: cyfres o ddigwyddiadau o gam-drin rhywiol a chorfforol ar draws cartrefi preswyl plant yng Nghlwyd a Gwynedd.⁴³ Fel y nododd adroddiad Waterhouse, mae eiriolaeth i blant mewn gofal preswyl yn arbennig o bwysig oherwydd gallant fod yn llawer mwy agored i niwed ac ynysig, ac felly'n wynebu risg o niwed neu gamdriniaeth.⁴⁴

Nododd ein hadroddiad yn 2023:

- Nid yw'r cysyniad o eiriolaeth (megis yr hawl statudol bod gan bob plentyn sy'n byw yng Nghymru sy'n derbyn gofal fynediad at 'gynnig gweithredol' o eiriolaeth yn seiliedig ar faterion) yn cael ei ddeall yn eang o hyd gan y rhai sy'n berchen ar gartrefi plant a ddarperir gan y sector preifat, na'r rhai sy'n gweithio yn y cartrefi hynny.

⁴² Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 27 Mehefin 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 18

⁴³ Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Chwefror 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 142

⁴⁴ Waterhouse, Ronald et al, 'Lost in Care: Report of the Tribunal of Inquiry into the Abuse of Children in Care in the Former County Council Areas of Gwynedd and Clwyd since 1974', Chwefror 2000

- Bod hyd at 25 y cant o blant mewn cartrefi preswyl yng Nghymru'n cael eu lleoli gan awdurdodau lleol yn Lloegr (ac felly nid oes ganddynt yr hawl i 'gynnig gweithredol' o eiriolaeth fel sydd gan blant Cymru).
- Ar adeg ysgrifennu hwn, er bod gan bob cartref preswyl sy'n cael ei redeg gan awdurdod lleol eiriolwyr penodedig, dim ond 15 y cant o gartrefi preswyl preifat/gwirfoddol sydd ag eiriolwyr penodedig.

Daethom i'r casgliad drwy gydnabod manteision eiriolwr sy'n gallu cymryd trosolwg ehangach o wasanaethau gofal y cartref preswyl yn eu cyfanrwydd, er mwyn lleihau'r risg o gam-drin systematig fel y rhai yr ymchwiliwyd iddynt fel rhan o ymchwiliad Waterhouse yn digwydd byth eto.⁴⁵

Gwnaethom argymhell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod pob plentyn mewn cartref gofal preswyl yng Nghymru yn cael mynediad at eiriolaeth ymweliad preswyl drwy ddiwygio'r trefniadau sydd ar waith o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 i wneud darparu eiriolaeth ymweliad preswyl ym mhob cartref plant (gan ddarparwr eiriolaeth cofrestredig dan gontract) yn ofyniad er mwyn cofrestru fel darparwr cartrefi gofal plant yng Nghymru.⁴⁶

Gwrthododd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn, gan ddadlau bod y 'cynnig gweithredol' o eiriolaeth yn cael ei ymestyn i blant mewn lleoliadau preswyl, ac y bydd gan bob plentyn Swyddog Adolygu Annibynnol hefyd i ddwyn gweithwyr proffesiynol a gwasanaethau i gyfrif.⁴⁷

Am y rhesymau sy'n cael eu nodi mor glir yn ein hadroddiad a'u crynhoi uchod, ac er gwaethaf ymateb Llywodraeth Cymru, rydym yn parhau i gredu nad yw'r trefniadau eiriolaeth presennol ar gyfer plant mewn gofal preswyl yn ddigonol. Mae Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru), sy'n nodi gofynion newydd ar gyfer ceisiadau i gofrestru mewn perthynas â gwasanaethau plant o dan gyfyngiad, yn gyfrwng deddfwriaethol delfrydol ar gyfer bwrw ymlaen â'n hargymhellion yn y maes hwn. Bydd cartrefi gofal preswyl a ddarperir gan y trydydd sector yn parhau i fod yn rhan allweddol o'r dirwedd gofal preswyl yng Nghymru o dan y Bil. Fel y nodir yn ein hadroddiad, dim ond nifer fach o gartrefi gofal annibynnol sydd ag eiriolwyr, ac nid yw staff sy'n gweithio mewn cartrefi gofal annibynnol bob amser mor ymwybodol o hawliau eiriolaeth plant ag y dylent fod.

Argymhelliad 2. Dylai'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ystyried argymhell i Lywodraeth Cymru y dylid diwygio Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) fel bod y Bil bod darparu eiriolaeth ymweliad

⁴⁵ Senedd Cymru, 'Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Os nad nawr, pryd? Diwygio radical ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal', Mai 2023, tudalennau 81-84

⁴⁶ Senedd Cymru, 'Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Os nad nawr, pryd? Diwygio radical ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal', Mai 2023, tudalennau 83-84

⁴⁷ Llywodraeth Cymru, 'Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn dwyn y teitl "Os nad nawr, pryd? Diwygio radical ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal"', 5 Gorffennaf 2023, tudalennau 11-12



preswyl ar gyfer pob cartref gofal plant yn ofyniad ar gyfer cofrestru fel darparwr cartrefi gofal plant yng Nghymru.



Free School Meals and no recourse to public funds in Wales – a briefing

Free School Meals (FSM) are available to eligible children attending a maintained school in Wales. Eligibility is based on household income, measured by receipt of certain benefits or asylum support, and the immigration status of a child's parents.

Are Free School Meals a public fund for immigration purposes?

Immigration restrictions on public funds do not include FSM. Children of migrants not in receipt of asylum support but restricted from accessing public funds (most migrants without settled status), are not eligible for free school meals in Wales.

What are our concerns?

Bevan Foundation research indicates that children in Wales are routinely excluded from accessing free school meals (FSM) by their parents' no recourse to public funds (NRPF) condition.¹ Restricting eligibility for FSM on the basis of a parent's immigration status results in indirect discrimination on the grounds of race.

- Children are going hungry while their peers are fed. Children with no recourse to public funds are not eligible for FSM in Wales even if their household income is zero.
- Restricted eligibility for free school meals does not depend on the immigration status of the child. It depends on the status of the parent.
- In a study of NRPF by the Unity Project in 2020, 90% of families responding had at least one British child, 95% of whom were black and minority ethnic children. None would be eligible for free school meals under current rules in Wales.²
- There are huge restrictions on support for children living in poverty who are subject to NRPF. Even child benefit is withheld. Free school meals are not a public fund and could be a valuable resource in tackling poverty where children have NRPF.
- Lack of access to FSM restricts access to the School Essentials Grant. Children with NRPF are eligible for this but usually cannot access it where not in receipt of FSM.
- In its NRPF Guidance, the Welsh Government urges local authorities to use their discretion not to charge children who have no recourse to public funds for FSM. Our research shows that this discretion simply is not working.

Why doesn't discretion work?

Our research found that even where local authorities believe they are exercising discretion, because of the way in which information is shared and applications administered, many children from low-income households cannot access FSM:

- Local authority websites often do not include information re: discretionary provision.
- Application processes often require evidence of receipt of benefits to which people with NRPF are not entitled.

- Some local authorities think they are exercising discretion when they are in fact offering free school meals to children on asylum support or unaccompanied asylum-seeking children, who are already entitled to free school meals.
- Many parents with no recourse to public funds are afraid of accessing FSM in case they accidentally access a public fund and damage their immigration status. It is vital that FSM become a clear entitlement, not a discretionary support.

Doesn't the universal primary roll-out of FSM address the issue?

The roll out of universal primary free school meals is a significant step in ensuring that no child in Wales goes hungry. It is not the whole journey. In secondary schools, beyond the universal roll out, many children of migrants are still missing out at lunchtime. Some families in our study spoke of the pain of knowing that one child was getting a meal at school, while an older child in secondary school, or a sibling attending a school in another authority, was going hungry.

What is the situation in other parts of the UK?

In England, children with NRPF have been eligible for free school meals since 2020. At first this was an emergency Covid-19 measure. The UK government permanently extended eligibility under a policy change in March 2022. Eligibility is subject to maximum household income thresholds of between £22,700 p.a. to £34,800 p.a. In Northern Ireland and Scotland, children with NRPF are not eligible for FSM, though there is some council discretion.

What needs to be done?

FSM are a vital tool in tackling child poverty and ensuring that no child goes hungry in school. We estimate that Welsh Government policy on FSM and NRPF restricts approximately 1,500 children in secondary schools from accessing free school meals they need, and consequently the School Essentials Grant.³

We are calling for the Welsh Government to permanently extend eligibility for free school meals to children with NRPF in Wales.

This would bring eligibility for FSM in line with UK government provision in England and is the only way to protect children's rights, provide equitable access, and ensure that **no child** goes hungry in school.

¹ *What Am I Supposed to Do? Living with no recourse to public funds in the Nation of Sanctuary*, Bevan Foundation, 2024, <https://www.bevanfoundation.org/wp-content/uploads/2024/02/Living-with-NRPF-in-the-Nation-of-Sanctuary-V2-FINAL-REPORT.pdf>

² We include statistics on British children to highlight inequity, but we believe that **all children** have a right to food, regardless of their immigration status or that of their parents.

³ Based on proportions likely to be living in poverty and attending secondary school of estimated nos. of children with NRPF or irregular migration status living in Wales (source figures from Migration Observatory and Dr. Jo Wilding). Rounded to nearest 100. Further information available on request.

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Children, Young People and Education Committee

Delyth Jewell AS

Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol

05 Awst 2024

Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru)

Annwyl Delyth,

Diolch i chi ac Aelodau eraill y Pwyllgor am ymuno â ni yn ein sesiwn frifio dechnegol yn ddiweddar ar Fil y Gymraeg ac Addysg (Cymru). Yn dilyn y sesiwn hon ar 17 Gorffennaf, gwnaethom ystyried ein dull o graffu ar y Bil, a chytunwyd i wahodd aelodau o'ch Pwyllgor i gymryd rhan yn ein gwaith craffu Cyfnod 1.

Mae'r gwahoddiad hwn yn cael ei roi o dan Reol Sefydlog 17.49, lle caiff Aelodau nad ydynt yn aelodau o bwyllgor, gyda chaniatâd y Cadeirydd, gymryd rhan mewn cyfarfod pwyllgor, ond na chânt bleidleisio. Dyma'r un sail a ddefnyddiwyd ar gyfer rhai o'n Pwyllgor yn cymryd rhan yn eich ymchwiliad i'r fframwaith deddfwriaethol sy'n cefnogi darpariaeth addysg cyfrwng Gymraeg.

Mae Atodiad 1 yn nodi'r cyfarfodydd tebygol pan fyddwn yn cynnal gwaith craffu ar y Bil. Nid yw'r union amseriadau wedi'u cadarnhau eto, ond byddwn yn rhannu'r manylion hyn cyn gynted ag y bydd yr amseroedd gennym ni.

Rhowch wybod i ni erbyn dydd Llun 9 Medi pa un o'ch Aelodau, os o gwbl, sy'n bwriadu ymuno â ni, naill ai ar gyfer rhan o'n gwaith craffu Cyfnod 1, neu'r cwbl. Byddwn yn sicrhau eu bod yn cael yr holl wybodaeth berthnasol cyn cyfarfodydd perthnasol y Pwyllgor.



Yn gywir,



Buffy Williams AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
We welcome correspondence in Welsh or English



Atodiad 1 - Rhaglen waith y Pwyllgor

Dydd Iau 19 Medi	Sesiwn gyhoeddus: Sesiwn dystiolaeth lafar 1: Yr Aelod sy'n Gyfrifol
Dydd Iau 26 Medi	Sesiynau cyhoeddus: Sesiwn dystiolaeth lafar 2 Sesiwn dystiolaeth lafar 3 Sesiwn dystiolaeth lafar 4 Sesiwn dystiolaeth lafar 5
Dydd Mercher 2 Hydref	Sesiynau cyhoeddus: Sesiwn dystiolaeth lafar 6 Sesiwn dystiolaeth lafar 7 Sesiwn dystiolaeth lafar 8
Dydd Mercher 9 Hydref	Sesiynau cyhoeddus: Sesiwn dystiolaeth lafar 9 Sesiwn dystiolaeth lafar 10 Sesiwn dystiolaeth lafar 11 Sesiwn dystiolaeth lafar 12
Dydd Iau 17 Hydref	Sesiynau cyhoeddus: Sesiwn dystiolaeth lafar 13 Sesiwn dystiolaeth lafar 14 Sesiwn dystiolaeth lafar 15
Dydd Iau 24 Hydref	Sesiwn gyhoeddus: Sesiwn dystiolaeth lafar 16: Yr Aelod sy'n Gyfrifol Sesiwn breifat: Materion allweddol
Dydd Iau 28 Tachwedd	Sesiwn breifat: Trafod yr adroddiad drafft
Dydd Mercher 4 Rhagfyr	Sesiwn breifat:

	Trafod yr adroddiad drafft
Dydd Gwener 13 Rhagfyr	Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad Cyfnod 1



ABUHB response to: Children, Young People and Education Committee - Inquiry into Children and Young People on the Margins

Date: 9th August 2024

Response prepared by: Joanne Foley, Principal Public Health Practitioner

Approved by: Tracy Daszkiewicz, Executive Director for Public Health & Strategic Partnerships

On behalf of Aneurin Bevan University Health Board (ABUHB), please accept our comments on Children, Young People and Education Committee - Inquiry into Children and Young People on the Margins. Contributions have been sought across ABUHB to inform the response to the questions posed.

1. The scale and nature of children and young people presenting in accident and emergency departments with injuries that suggest they may be the victims of child criminal exploitation, and details of any specific strategies and/or projects that health boards are involved with in this regard.

As of June 2024, there were 91 children open to the child exploitation team in Gwent Police. In terms of exploitation the health board receives the police cohort for both sexual and criminal exploitation bi-monthly for the for Local Authorities in Gwent. The safeguarding team collate a list of these children which is shared with A&E, CAMHS, sexual health and school health nursing. These services then add the necessary flags to children's record. For example, if a child on the exploitation cohort attends A&E, then there is a flag on their records to submit a duty to report to children's services.

We have seen a number of presentations with injuries to our hospitals including falls from motorbikes/electric scooters, drug and alcohol misuse and overdoses of prescription medication. Although these children are known to the exploitation arena, there is no evidence that these presentations a A&E are directly linked to exploitation as there are no disclosures made.

2. *Presentations to sexual health clinics that indicate risks of involvement in child criminal activities. Details of any specific strategies and/or projects that health boards are involved with in this regard.*

The Directorate of Sexual and Reproductive Health have a safeguarding team in place. Safeguarding pathways and policies are accessible to staff on our internet site, as well as training regarding safeguarding issues. There is a dedicated SECS team who work with young people. ([Information for Young People - Aneurin Bevan University Health Board \(nhs.wales\)](http://nhs.wales))

When all under 18's attend sexual health services they are asked questions relating to safeguarding in the form of the CERQ/sexual exploitation risk assessment. (appendix A) this highlights if YP have been missing or at risk of CSE/ CCE. If people answer yes to anything with a red dot this highlights a referral to social services due to being high risk. If there are general concerns they are still refer to social services. The team also feed into corporate safeguarding CSE toolkit meetings.

As a service we have been involved in multiple multi agency projects involving safeguarding e.g. operation Quartz, missing children services. If a child is part of operation Quartz it is added to their notes so clinicians are aware when they come into clinic.

The service is part of the regional Multi-Agency Child Exploitation (MACE) meetings that provide oversight of child exploitation cases. The transition of these regional meetings from child sexual exploitation to child exploitation, as a broader theme, was an identified outcome indicator and enables the region to share intelligence on linked cases, locations of concern and case escalations.

3. *Presentations to any other primary health care provision in respect of child criminal exploitation and missing children, alongside any recommendations you would like to see the Committee make in this regard.*

FCAMHS team (Forensic CAMHS)

FCAMHS team (Forensic CAMHS) are a team of Senior Nurse (Mental health advisor to the 3 local management boards for the YOS/YJS services in Gwent) , Psychiatrist, Psychologist, and three clinical nurse specialists from CAMHS seconded into the youth offending services. The CNSs work in partnership with the YOS to meet the mental health needs of young

people who offend. The CNSs will meet for consultation with Youth Offending staff to discuss all young people who enter the Youth Justice system (both at risk of offending Preventions, and those who have a court disposal).

All young people are screened and those who are identified as requiring consultation which may lead to a mental health assessment, and a three tiered approach to mental health provision (Tier 1 consultation support and supervision of work, tier 2 systemic work with partner agencies at network consultation meetings, CLA meetings, Child protection, Formulation meetings etc or tier 3 1-1 work with young people) Any risks of criminal exploitation are identified by the YOS and /or CNS during their work and would be discussed for referral to NRM (national referral mechanism).

The team also sit on the National Referral Mechanism (NRM) panel that requires a representative from Health, Police and LA as decision makers. There is a small pool of staff within the health board that work across Safeguarding, substance misuse and Health that share the rota of attendance.

An example of a CNS current workload would be. A case load of 10-all of which would meet threshold for criminal exploitation concerns. 5 have a positive NRM, 8 have been through the exploitation toolkit. This is a typical indicator of our work in YOS/YJS. Missing person lists are shared with the CNS every morning.

A high number of young people being referred to YOS/YJS have exploitation concerns, therefore during lateral checks, or allocations panel weekly, health would identify and make recommendations as well as contribute to the care planning, intervention delivery and risk management.

We sit within Risk management panels probably 3x per week for our YOS/YJS's. This does include all exploitation thinking, planning and management. The missing bulletin often leads to strategy meetings or multi-agency meetings for a child that is repeatedly missing. We would be included in that or highlight the concerns via this notification. Additionally, we may sit on Resettlement meetings for our young people if they are moving counties or areas and exploitation needs, need to be addressed and planned for.

Mae'r heriau staffio a wynebir gan ysgolion yn hynod gyd-destunol ac efallai na fydd cyflawniadau a phryderon ar lefel genedlaethol (megis lefel recriwtio AGA i'r sector cynradd, pynciau STEM ac addysg cyfrwng Cymraeg) yn gymwys ar lefel leol. Awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu fel y cyrff cyflogi sydd yn gyfrifol am gyflogi athrawon mewn ysgolion. Maent yn gyfrifol am sicrhau bod digon o staff addas yn cael eu cyflogi neu'n gweithio yn eu hysgol(ion), er mwyn darparu addysg sy'n briodol i oedran, doniau, galluedd ac anghenion eu dysgwyr. Gwnaethoch nodi yn eich llythyr fod prinder data ar adrannau gwyddoniaeth ysgolion penodol; awdurdodau lleol sy'n meddu ar y data hyn. Fodd bynnag, mae'r Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion yn casglu gwybodaeth am addysgu pynciau mewn ysgolion a nifer yr oriau a gaiff eu haddysgu dros amserlen pythefnos. Ceir rhagor o wybodaeth yn y cyhoeddiad [Canlyniadau Cyfrifiad Gweithlu Ysgolion](#) ac ar wefan [StatsCymru](#).

Mae gwybodaeth o'r Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion yn dangos bod nifer cyfwerth ag amser llawn yr athrawon ym mlwyddyn academiaidd 2023/24 wedi lleihau 2.9% ers blwyddyn academiaidd 2021/22 ond ei fod ychydig yn uwch na blwyddyn academiaidd 2020/21.

Nifer cyfwerth ag amser llawn yr athrawon yn ôl sector, blwyddyn academiaidd 2020/21 i flwyddyn academiaidd 2023/24

	2020/21	2021/22	2022/23	2023/24
Ysgolion Meithrin a Chynradd	11,620	11,950	11,770	11,245
Ysgolion Canol	1,205	1,245	1,470	1,605
Ysgolion Uwchradd	10,135	10,425	10,280	9,965
Ysgolion Arbennig	780	825	860	875
Uned Cyfeirio Disgyblion	250	255	260	300
Cyfanswm	23,985	24,700	24,640	23,995

Ffynhonnell: Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion (CBGY)

Mae'r gymhareb disgybl-athro yn uwch mewn ysgolion meithrin, cynradd ac uwchradd ym mlwyddyn academiaidd 2023/24, ond mae'n is ym mhob sector o gymharu â blwyddyn academiaidd 2020/21.

Cymhareb disgybl-athro yn ôl sector, blwyddyn academiaidd 2020/21 i flwyddyn academiaidd 2023/24

	2020/21	2021/22	2022/23	2023/24
Meithrin	13.6	10.9	10.5	11.4
Cynradd	21.9	21.0	20.9	21.3
Canol	18.0	17.4	17.2	17.2
Uwchradd	17.2	16.8	16.6	17.0
Arbennig	6.9	6.7	6.7	6.7
Cyfanswm	19.2	18.5	18.4	18.6

Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)

Gall y patrymau a welir yn nifer yr athrawon a chymarebau athro-disgybl fod o ganlyniad yn rhannol i [gyllid Llywodraeth Cymru](#) a ddarperir i ysgolion o dan y cynllun Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau i recriwtio staff ychwanegol er mwyn cefnogi disgyblion yn ystod pandemig y coronafeirws (COVID-19). Darparodd Llywodraeth Cymru y cyllid hwn i ysgolion yn ystod y pandemig a'r cyfnod adfer hyd at flwyddyn ariannol 2023-24, er i'r swm a ddosbarthwyd leihau ers y cyllid cychwynnol ym mlwyddyn ariannol 2020-21.

Nifer cyfartalog y ceisiadau a gafwyd fesul swydd a hysbysebwyd ym mlwyddyn academiaidd 2022/23 oedd 7.8, sydd wedi lleihau o 12.0 ym mlwyddyn academiaidd 2020/21. Caiff y patrwm hwn ei adlewyrchu ym mhob sector, gyda swyddi a hysbysebwyd mewn ysgolion cynradd yn cael 12.3 o geisiadau ar gyfartaledd ym mlwyddyn academiaidd 2022/23 o gymharu â 4.6 ar gyfer swyddi mewn ysgolion uwchradd.

Nifer cyfartalog y ceisiadau fesul swydd a hysbysebwyd yn ôl sector, blwyddyn academiaidd 2020/21 i flwyddyn academiaidd 2022/23

	2020/21	2021/22	2022/23
Ysgolion Cynradd	19.3	14.1	12.3
Ysgolion Uwchradd	7.3	5.5	4.6
Pob Ysgol	12.0	9.1	7.8

Ffynhonnell: Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion (CBGY)

Mae [fy natganiadau diweddar](#) wedi cadarnhau mai ein blaenoriaeth yw galluogi system sy'n canolbwyntio ar sicrhau gwelliant parhaus o ran cyflawniad addysgol fel y gall pob dysgwr gyflawni ei botensial.

Mae'r gwaith i sicrhau bod ein dysgwyr yn cael y profiadau a'r deilliannau addysgol gorau posibl yn dechrau drwy sicrhau eu bod mewn ysgol ag athrawon profiadol ac o ansawdd uchel sydd â'r disgwyliadau uchaf ohonynt. Rydym eisoes yn cymryd camau i ddatblygu cymorth pellach i ysgolion godi safonau fel y nodwyd yn fy Natganiad Llafar diweddar. Byddaf yn cyhoeddi datganiad pellach ar ein cynlluniau i godi safonau yn yr hydref.

2. Sut rydych chi'n ymateb i'r pryderon a godwyd gan y cyrff gwyddoniaeth ynghylch digonolrwydd athrawon ysgolion uwchradd arbenigol ym maes gwyddoniaeth yng Nghymru? A oes unrhyw bynciau eraill y mae gennych bryderon penodol amdanynt (e.e. Cymraeg (fel pwnc), ieithoedd tramor modern, mathemateg a TG)?

Rwy'n cydnabod pwysigrwydd hanfodol cael yr arbenigedd hwn yn ein hysgolion er mwyn galluogi cynnydd dysgwyr, ac mae'r Cwricwlwm i Gymru yn disgwyl i ddysgwyr allu arbenigo fwyfwy wrth iddynt symud ymlaen yn eu dysgu.

Caiff pynciau a/neu gyfnodau â blaenoriaeth ar gyfer AGA eu pennu'n flynyddol gan ddefnyddio data'r Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion a data'r Awdurdod Ystadegau Addysg Uwch. Maent yn cynrychioli'r pwnc neu'r cyfnod lle mae problemau uniongyrchol o ran recriwtio ar gyfer AGA ac o fewn y gweithlu'n genedlaethol (gan gynnwys y gweithlu cyfrwng Cymraeg). Mae nodi'r pynciau a/neu'r cyfnodau hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru i ddarparu cymhellion wedi'u targedu i raddedigion yn y meysydd hyn er mwyn iddynt ystyried cwblhau AGA, ac ymuno â'r gweithlu addysgu wedi hynny, drwy'r Cynllun Cymhelliant ar gyfer Pynciau â Blaenoriaeth. Dylid nodi nad ymarfer ystadegol yn unig yw hyn, a bod yn rhaid defnyddio ffactorau cyd-destunol i bennu'r rhestr derfynol o bynciau â blaenoriaeth.

Mae pynciau STEM ac ieithoedd (gan gynnwys Cymraeg) wedi bod yn flaenoriaeth ers nifer o flynyddoedd ac, mewn llawer o achosion, nid oes nifer digonol o unigolion wedi cael eu recriwtio i AGA gan fod y cyflenwad o fyfyrwyr, o Safon Uwch Cymraeg er enghraifft, wedi bod yn fach ac mae'r niferoedd llai [sy'n astudio eu gradd israddedig drwy gyfrwng y Gymraeg](#) yn cymhlethu pethau ymhellach. Yn ogystal, mae ystod eang o opsiynau gyrfa cystadleuol ar gael i raddedigion STEM yn arbennig. Mae'r pynciau sydd â blaenoriaeth ar hyn o bryd fel a ganlyn:

- Bioleg
- Cemeg
- Dylunio a Thechnoleg
- Technoleg Gwybodaeth
- Mathemateg
- Ieithoedd Tramor Modern
- Ffiseg
- Cymraeg

Rydym hefyd yn gweithredu i helpu i feithrin capasiti arbenigol o fewn y gweithlu addysgu presennol. Yn ystod blwyddyn ariannol 2024-25, rhoddodd Llywodraeth Cymru bron £163,000 i'r Sefydliad Ffiseg er mwyn cyflawni'r rhwydweithiau Ffiseg Ysgogol a Chynhwysiant a Thegwch Ysgol Gyfan. Mae'r Rhwydwaith Ffiseg Ysgogol yn rhoi hyfforddiant wedi'i dargedu i ymarferwyr sydd ar ddechrau eu gyrfa ac ymarferwyr nad ydynt yn arbenigol, ar gyfer dylunio gwersi ffiseg diddorol a llawn ysbrydoliaeth a gwella eu dealltwriaeth o gymwysterau ffiseg a llwybrau gyrfa. Mae ein Rhaglen Dyfodol Byd-eang ar gyfer ieithoedd rhyngwladol hefyd yn canolbwyntio ar ddatblygu'r sgiliau, yr wybodaeth a'r profiadau sydd eu hangen ar ymarferwyr i gynllunio a chyflwyno darpariaeth ieithoedd rhyngwladol effeithiol.

O ran y data, mae nifer cyfartalog y ceisiadau ar gyfer swyddi a hysbysebwyd wedi lleihau i bob pwnc rhwng blwyddyn academaidd 2020/21 a blwyddyn academaidd 2022/23. Mae nifer cyfartalog y ceisiadau am swyddi mewn pynciau â blaenoriaeth, fel y nodir uchod, yn gyson is na nifer cyfartalog y ceisiadau ar gyfer pob swydd uwchradd. Cafodd swyddi Cymraeg (1.8 cais fesul swydd), Technoleg Gwybodaeth (2.2), Ffiseg (2.3) a Chemeg (2.8) y nifer isaf o geisiadau fesul swydd ym mlwyddyn academaidd 2022/23. Mae hyn yn cymharu â Hanes (9.7), Addysg Gorfforol (6.9) a Saesneg (5.0) sy'n cael nifer uwch o geisiadau fesul swydd ar gyfartaledd yn gyson.

Nifer cyfartalog y ceisiadau fesul swydd ar gyfer pynciau â blaenoriaeth a phynciau dethol eraill, blwyddyn academiaidd 2020/21 i flwyddyn academiaidd 2022/23

	2020/21	2021/22	2022/23
Bioleg	4.5	4.3	3.5
Cemeg	6.4	3.6	2.8
Dylunio a Thechnoleg	6.2	2.8	3.4
Saesneg	8.7	6.5	5.0
Hanes	24.4	8.8	9.7
Technoleg Gwybodaeth	3.6	2.6	2.2
Mathemateg	4.7	4.6	3.5
Ieithoedd Tramor Modern	7.8	4.5	3.5
Addysg Gorfforol	14.3	10.3	6.9
Ffiseg	3.7	2.4	2.3
Cymraeg	2.6	2.3	1.8
<i>Ysgolion Cynradd</i>	<i>19.3</i>	<i>14.1</i>	<i>12.3</i>
<i>Ysgolion Uwchradd</i>	<i>7.3</i>	<i>5.5</i>	<i>4.6</i>
Pob Swydd	12	9.1	7.8

Ffynhonnell: Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion (CBGY)

Dylid nodi bod y pynciau â blaenoriaeth hyn yn rhai cenedlaethol a nodwyd gan ddefnyddio setiau data ar lefel genedlaethol. Mae'n bosibl bod pryderon recriwtio gwahanol ar lefel awdurdod lleol neu mewn ysgolion penodol.

3. Beth yw eich asesiad o ddigonolrwydd y gweithlu addysg sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a phwysigrwydd hyn i uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu hyfedredd yn y Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg?

Mae ein huchelgais i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn galw am newidiadau a chmau gweithredu pellgyrhaeddol. Mae ein cwricwlwm newydd yn rhoi'r Gymraeg wrth wraidd dysgu yng Nghymru ond os ydym am greu cenedl lle mae pobl yn siarad ac yn defnyddio'r iaith yn eu bywyd bob dydd, mae'n hollbwysig cynyddu nifer y dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. I wneud hynny, mae angen gweithlu cryf a medrus arnom.

Gwnaethom gyhoeddi [Cynllun y Gweithlu Cymraeg mewn Addysg](#) ym mis Mai 2022. Mae'r cynllun yn cynnwys ystod o gamau gweithredu i Lywodraeth Cymru eu cymryd mewn partneriaeth â rhanddeiliaid er mwyn mynd i'r afael â phedwar nod allweddol:

- Cynyddu nifer yr athrawon Cymraeg a chyfrwng Cymraeg
- Cynyddu nifer y cynorthwyrwyr addysgu cyfrwng Cymraeg
- Meithrin sgiliau Cymraeg pob ymarferydd
- Cynyddu'r gallu i arwain yn y sector cyfrwng Cymraeg a datblygu arweinwyr y Gymraeg ym mhob ysgol.

Gellir gweld y data diweddaraf ar nifer yr athrawon cyfrwng Cymraeg isod. Rydym yn gwneud cynnydd graddol, ond mae'n her enfawr o hyd. Byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid, gan gynnwys ysgolion, CYDAG, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'n partneriaethau AGA i gefnogi ymgyrchoedd recriwtio i'n sector uwchradd. Rydym wedi dweud ar sawl achlysur ein bod yn agored i unrhyw awgrymiadau a syniadau newydd i gefnogi ymgyrchoedd recriwtio.

Byddwn yn cyhoeddi diweddariad i'r gwaith dadansoddi data a dogfennau dadansoddi'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg sy'n cyd-fynd â Chynllun y Gweithlu Cymraeg mewn Addysg yn yr hydref, a fydd yn cynnwys y data diweddaraf ar y gweithlu.

Nifer yr athrawon ysgol gynradd sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg			
Llinell sylfaen 2022/23 2,874	Targed 2031 3,900	Bwlch o ran y targed 1,026	Nifer bras yr athrawon ychwanegol y flwyddyn 103
Nifer yr athrawon uwchradd sy'n addysgu Cymraeg fel pwnc neu'n addysgu pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg			
Llinell sylfaen 2022/23 2,555	Targed 2031 4,100	Bwlch o ran y targed 1,545	Nifer bras yr athrawon ychwanegol y flwyddyn 170

Mae Grŵp Gweithredu Allanol wedi cael ei sefydlu i fonitro cynnydd a bydd yn adolygu'r cynigion ar gyfer gweithredu yn y dyfodol unwaith y bydd y gwaith dadansoddi data a dogfennau dadansoddi'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg wedi'u diweddarau ar gael.

Rydym hefyd wedi penodi pennaeth uwchradd ar secondiad i ddechrau ym mis Medi 2024 a fydd yn arwain y gwaith o adolygu'r camau a gymerwyd hyd yn hyn a gwaith gyda'r sector a phartneriaid allweddol i ddatblygu camau gweithredu pellach a fydd yn cefnogi goblygiadau Bil y Gymraeg ac Addysg i'r gweithlu.

Recriwtio athrawon uwchradd i ysgolion cyfrwng Cymraeg yw'r her allweddol ac mae nifer o gamau rydym wedi'u cymryd ers 2022 wedi canolbwyntio ar hyn. Mae'r camau hyn yn cynnwys:

- Parhau i gynnig cyfleoedd drwy Gynllun Pontio i athrawon sydd wedi bod i ffwrdd o'r proffesiwn er mwyn iddynt ddychwelyd i addysgu; i athrawon cynradd drosglwyddo i'r sector uwchradd, ac i athrawon o'r sector cyfrwng Saesneg drosglwyddo i'r sector cyfrwng Cymraeg. Bydd 25 ychwanegol yn dechrau ym mis Medi 2024 mewn meysydd pwnc allweddol megis Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth.
- Cefnogi ysgolion i ddatblygu ffyrdd arloesol o ddatrys rhai o'u heriau recriwtio drwy grant datblygu capasiti'r gweithlu addysg cyfrwng Cymraeg (oddeutu £800k fesul blwyddyn academaidd).
- Ariannu'r Brifysgol Agored i ehangu ei llwybr addysgu ar sail cyflogaeth, gan gynnwys dylunio a thechnoleg a chyfrifiadureg o fis Medi 2023; dyma bynciau lle mae prinder athrawon ac mae'r llwybr hwn yn galluogi darpar athrawon i hyfforddi yn eu cymunedau a chael eu talu wrth hyfforddi. Mae'r cyrsiau ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, ond ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg mae'r costau cyflogaeth yn cael eu hariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru. .
- Cyllid i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol sefydlu Cadw Cyswllt sy'n hyrwyddo cyfleoedd i fyfyrwyr yn Lloegr ddychwelyd i Gymru i baratoi i addysgu.
- Cyllid i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ddarparu sesiynau mentora i oddeutu 50 o unigolion fel rhan o raglen Addysgu'r Dyfodol. Mae'r rhaglen yn darparu tair sesiwn fentora ar-lein i fyfyrwyr israddedig a'r cyfle i gwblhau dau ddiwrnod o brofiad gwaith mewn ysgol (cynradd/uwchradd, cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog) i'w hannog i fynd ymlaen i addysgu. Mae system olrhain wedi cael ei rhoi ar waith er mwyn deall effaith y rhaglen.

- Sefydli'r Fwrsariaeth i Gadw Athrawon Cymraeg mewn Addysg. Bydd £5,000 ar gael i athrawon sydd wedi ennill Statws Athro Cymwysedig ers mis Awst 2020 ac sydd wedi addysgu Cymraeg am dair blynedd, neu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg am dair blynedd, yn y cyfnod uwchradd. Bydd y fwrsariaeth ar gael tan hydref 2028 yn y lle cyntaf a bydd yn rhoi data inni ar b'un a yw cyflwyno bwrsariaeth yn annog athrawon i ymuno â'r proffesiwn ac aros ynddo.

Ochr yn ochr â chamau i gefnogi cynnydd yn nifer yr athrawon uwchradd cyfrwng Cymraeg, rydym hefyd wedi bod yn parhau i roi camau gweithredu ar waith i gefnogi pob ymarferydd i ddatblygu ei sgiliau Cymraeg er mwyn gallu addysgu a defnyddio'r iaith yn ein holl ysgolion.

Rydym wedi datblygu canllawiau i awdurdodau lleol ddadansoddi data'r gweithlu mewn perthynas â gallu ymarferwyr i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a sgiliau Cymraeg ymarferwyr yn y sector cyfrwng Saesneg. Bydd hyn yn galluogi awdurdodau lleol i adrodd yn gyson ar eu gweithlu a'u hanghenion datblygu hyfforddiant fel rhan o'u Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol bellach yn ymgymryd â rôl gydgysylltiedig o ran cynllunio cyfleoedd dysgu proffesiynol yn y Gymraeg i'w darparu i'r gweithlu addysg.

Mae ymarfer cwrpasu llawn wedi cael ei gwblhau, gan weithio gyda phob awdurdod lleol a chonsortia rhanbarthol er mwyn deall yr anghenion o ran datblygu sgiliau Cymraeg ar lefel leol. Yn seiliedig ar yr ymarfer hwn, mae'r Ganolfan bellach wedi datblygu cynllun i fodolau cyflawni newydd gael eu treialu, gan gynnwys cymorth mewn ysgolion, cyrsiau preswyl, cyrsiau ar-lein dan arweiniad tiwtor ac adnoddau dysgu proffesiynol. Cytunwyd ar y cynnig llawn ar gyfer blwyddyn academiaidd 2024/25 gydag awdurdodau lleol a bydd gwybodaeth ar gael ar wefan y Ganolfan yn fuan.

O fis Medi 2025, bydd y Ganolfan yn rheoli'r cyrsiau dwys sydd ar gael drwy'r Cynllun Sabothol ochr yn ochr â chysiau eraill sy'n cael eu datblygu ar gyfer y gweithlu addysg. Mae'r Ganolfan hefyd wedi bod yn gweithio gyda darparwyr AGA i ddarparu adnoddau i gefnogi myfyrwyr i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg wrth iddynt hyfforddi. Mae'r rhain bellach wedi cael eu rhannu â phob darparwr a byddant yn cael eu cynnwys mewn cyrsiau o fis Medi.

Mae Bil y Gymraeg ac Addysg yn gosod uchelgais newydd o alluogi pob dysgwr i ddefnyddio'r iaith yn hyderus. Mae'r gweithlu'n hanfodol i wireddu'r nodau a amlinellir yn y Bil a bydd y camau yr ydym yn eu cymryd yn cefnogi'r gwaith o'i weithredu.

4. Ydych chi'n credu bod y bwrsariaethau a gaiff eu cynnig i athrawon dan hyfforddiant ar hyn o bryd yn ddigonol, yn benodol yng nghyd-destun bwrsariaethau uwch a gynigir yn Lloegr?

Mae cymhellion yn fater cymhleth ac mae angen ei osod yng nghyd-destun datblygu'r proffesiwn fel cynnig gyrfu ddeniadol.

Mae [ymchwil o 2022](#) ac [ymchwil bellach o 2023](#) (gan ddefnyddio data AGA a chynllun cymhelliant Lloegr sy'n cyfateb yn fras i'r Cynllun Cymhelliant ar gyfer Pynciau â Blaenoriaeth) yn dangos tystiolaeth gyson bod cynnydd mewn cymhellion yn cynyddu cyfraddau recriwtio. Nid oes ymchwil debyg wedi cael ei chynnal mewn perthynas â chynlluniau cymhelliant Cymru. Mae'r Cynllun Cymhelliant ar gyfer Rhai o Gymunedau Ethnig Lleiafrifol yn rhy newydd i gael nifer addas o garfanau/pobl gymwys er mwyn cynnal y gwaith dadansoddi hwn ar hyn o bryd. Mae gwaith dadansoddi ar agweddau cadw ynghylch y Cynllun Cymhelliant ar gyfer Pynciau â Blaenoriaeth, sy'n debyg iawn i gynllun cymhelliant Lloegr, wrthi'n cael ei roi ar waith.

Mae [ymchwil i recriwtio](#) athrawon i'r gweithlu yng Nghymru (a'u cadw) (a gynhaliwyd gan Gyngor y Gweithlu Addysg ar ran Llywodraeth Cymru), [ymchwil gan Lywodraeth Cymru](#) ac [ymchwil yr OECD](#) yn dangos **nad cymell unigolion i gwblhau AGA yw'r unig ystyriaeth i ymgeiswyr AGA** ac y dylai fod yn rhan o becyn cyfannol ehangach o ymyriadau polisi. Mae'r rhain yn cynnwys ystyriaethau ynghylch cyflogau ac amodau i raddedigion, cymorth ar gyfer y blynyddoedd cynnar a datblygiad proffesiynol, a chymau gweithredu ynghylch cyflog, llwyth gwaith a llesiant.

Rydym yn cynnig amrywiaeth o gymhellion i ddenu ymgeiswyr i AGA yng Nghymru. Mae'r cynlluniau hyn yn targedu'r meysydd a'r pynciau hynny lle mae recriwtio fwyaf heriol; pynciau â blaenoriaeth, y sector cyfrwng Cymraeg a denu mwy o newydd-ddyfodiad o leiafrifoedd ethnig. Gall unigolion cymwys fanteisio ar bob un o'r cynlluniau cymhelliant. Ym mlwyddyn academaidd 2024/25, mae cyfanswm o £25,000 ar gael i'r rhai sy'n bodloni gofynion y tri chynllun:

- [Cynllun Cymhelliant ar gyfer Pynciau â Blaenoriaeth](#) (£15,000)
- [Cynllun Iaith Athrawon Yfory](#) (£5,000)
- [Cynllun Cymhelliant ar gyfer Rhai o Gymunedau Ethnig Lleiafrifol](#) (£5,000)

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y cynllun cymhelliant cystadleuol sydd ar gael i athrawon dan hyfforddiant pynciau arbenigol yn Lloegr a'r potensial iddo ddenu graddedigion sy'n hanu o Gymru i astudio Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Saesneg. Fodd bynnag, adnoddau cyfyngedig sydd gennym i annog unigolion i gwblhau AGA Cymraeg, ac mae'n rhaid gwneud penderfyniadau anodd i gydnabod y dirwedd gyllidol.

Fel yr amlinellwyd mewn ymateb i gwestiwn 3 uchod, rydym hefyd wedi sefydlu'r Fwrsariaeth i Gadw Athrawon Cymraeg mewn Addysg i athrawon sydd wedi ennill Statws Athro Cymwysedig ers mis Awst 2020 ac sydd wedi addysgu Cymraeg am dair blynedd, neu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg am dair blynedd, yn y cyfnod uwchradd. Bydd y fwsariaeth hon o £5,000 ar gael tan hydref 2028 yn y lle cyntaf a bydd yn rhoi data inni ar b'un a yw cyflwyno bwrsariaeth yn annog athrawon i ymuno â'r proffesiwn ac aros ynddo er mwyn llywio cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

5. A hoffech godi unrhyw beth arall gyda ni yr ydych yn credu sy'n berthnasol i unrhyw waith a wnawn yn y dyfodol mewn perthynas â recriwtio a chadw athrawon?

- a. [Gweithgareddau marchnata ac eirioli cenedlaethol i gefnogi ymgyrchoedd recriwtio AGA.](#)

Mae hyrwyddo addysgu fel gyrfa, ennyn diddordeb israddedigion a myfyrwyr Safon Uwch yn gynharach, a chreu cyfleoedd newydd i oedolion ymuno â'r proffesiwn yn hollbwysig er mwyn sicrhau cyflenwad o fyfyrwyr AGA a fydd yn ymuno â'r proffesiwn addysgu wedyn. Ymgyrch farchnata gan Lywodraeth Cymru yw Addysgu Cymru er mwyn annog pobl i ymuno â'r proffesiwn addysgu.

Yn dilyn adolygiad o Darganfod Addysgu, sef ymgyrch recriwtio a gynhelir gan y Consortia Addysg, trosglwyddwyd cyfrifoldeb am y wefan i Gyngor y Gweithlu Addysg a chomisiynodd Llywodraeth Cymru ymchwil yn 2018 i lywio ymgyrch farchnata i recriwtio athrawon. Lansiwyd Addysgu Cymru gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2019. Cafodd gwefan Addysgwyr Cymru, sy'n rhan o wasanaeth eirioli Cyngor y Gweithlu Addysg ar gyfer recriwtio i'r gweithlu addysg, ei lansio ym mis Mehefin 2021. Ers y dechrau'n deg, mae Llywodraeth Cymru a Chyngor y Gweithlu Addysg wedi cydweithio'n agos iawn ar hyrwyddo addysgu fel gyrfa, gan gysylltu'r ymgyrch farchnata a'r gwasanaeth eirioli.

Addysgu Cymru yw'r 'brand' cyffredinol ar gyfer ymgyrchoedd cenedlaethol i recriwtio athrawon (sy'n cyfeirio unigolion yn uniongyrchol at Addysgwyr Cymru a chanolfannau AGA unigol er mwyn cymryd camau dilynol i gysylltu â phobl). Blaenoriaeth gychwynnol Addysgu Cymru oedd hyrwyddo pynciau â blaenoriaeth mewn ysgolion uwchradd. Y ddau llyn allweddol arall sydd wedi cael eu datblygu ers hynny yw denu mwy o bobl sy'n gallu siarad Cymraeg ac addysgu yn Gymraeg i ymuno â'r proffesiwn sydd hefyd yn cynnwys y Cynllun Pontio a denu mwy o unigolion Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol i addysgu. Yn ystod y flwyddyn, byddwn yn ceisio ehangu'r ymgyrch er mwyn denu mwy o unigolion i ddod yn athrawon mewn ysgolion arbennig. Mae'r prif gynulleidfaoedd targed yn cynnwys: israddedigion a myfyrwyr Safon Uwch, siaradwyr Cymraeg, Cynorthwywyr Addysgu, israddedigion a graddedigion STEM, pobl sy'n newid gyrfa ac unigolion Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, rhieni/gofalwyr sydd wedi dewis aros gartref a gweithwyr llawrydd.

Mae ymgyrch Addysgu Cymru, sy'n cynnwys athrawon go iawn yng Nghymru, yn rhedeg drwy gydol y flwyddyn gyda mwy o weithgarwch ar adegau allweddol ar gyfer gwneud penderfyniadau (mis Gorffennaf i fis Medi a mis Ionawr i fis Mawrth). Mae gweithgarwch yn cynnwys amrywiaeth eang o dechnegau cyfathrebu gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol wedi'u targedu, hysbysebion ar-lein, radio, gwasanaethau dal i fyny ar y teledu, cysylltiadau cyhoeddus, hysbysebion awyr agored, a digwyddiadau allweddol. Mae cydberthnasau gwaith agos â phob Partneriaeth AGA yng Nghymru gyda diweddariadau rheolaidd a rhennir gweithgarwch ymgyrchu er mwyn cefnogi'r sector a chydlynu ein hymdrechion i recriwtio mwy o athrawon i'r proffesiwn. Ers diwedd mis Hydref 2023, o ganlyniad i'r ymgyrch mae dolenni o wefan Addysgwyr Cymru i Bartneriaethau AGA wedi cael eu clicio dros 4,500 o weithiau.

Am fod angen cynyddu nifer y bobl a all addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, mae gweithgor marchnata penodol wedi cael ei sefydlu sy'n cynnwys Llywodraeth Cymru, Cyngor y Gweithlu Addysg, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac, yn fwy diweddar, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Diben y grŵp yw cydweithio a rhannu gwybodaeth er mwyn datblygu strategaeth cyfathrebu a marchnata dair blynedd. Yn ystod y flwyddyn gyntaf, canolbwyntiwyd ar ystyried cyfleoedd i gydweithio a chodi proffil addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg fel gyrfa, gan gynnwys presenoldeb yn Eisteddfod yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol a digwyddiadau mawr eraill yn ystod yr haf. Mae'r gwaith hefyd wedi cynnwys cyfarfod â phob Partneriaeth AGA er mwyn deall cymhellion myfyrwyr a'r hyn sy'n eu hatal rhag dewis addysgu fel gyrfa, strategaethau recriwtio Partneriaethau AGA ac adnabod cyfleoedd i hwyluso mwy o drefniadau cydweithio.

Lansiwyd gwefan a gwasanaeth recriwtio, eiriolaeth a chymorth [Addysgwyr Cymru](#) (a gaiff ei arwain gan Gyngor y Gweithlu Addysg a'i gyllido gan Lywodraeth Cymru) ym mis Medi 2021 ac mae wedi ymgysylltu â mwy na 27,000 o unigolion (yn ôl ffigurau mis Ionawr 2024) sydd â diddordeb mewn dilyn gyrfa ym myd addysg. Mae'r gwasanaeth yn chwilio am gyfleoedd ar gyfer gwaith partneriaeth, fel cefnogi Partneriaethau AGA gyda syniadau arloesol i wneud gweithgarwch fel rhan o'u strategaethau a'u cynlluniau recriwtio eu hunain, megis hyrwyddo AGA ar gampysau gwahanol. Mae Addysgwyr Cymru hefyd yn darparu sesiynau gwybodaeth ar yrfaedd ym myd addysg yng Nghymru mewn ysgolion a ffeiriau gyrfaedd ysgolion, ynghyd â digwyddiadau mawr fel yr Eisteddfod.

Yn ogystal â'r uchod, mae canllawiau achredu'r Partneriaethau AGA yn ei gwneud yn ofynnol iddynt roi eu strategaethau recriwtio eu hunain ar waith. Mae tîm cyfathrebu Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda thimau marchnata Cyngor y Gweithlu Addysg a Sefydliadau Addysg Uwch i sicrhau synergedd, gwerth am arian a negeseuon cyson drwy holl weithgarwch hyrwyddo Llywodraeth Cymru, Cyngor y Gweithlu Addysg a Phartneriaethau AGA ym maes recriwtio ar gyfer AGA.

Cynyddodd y nifer a wnaeth gais i addysgu yn ystod Covid, ac mae wedi gostwng eto. Er mwyn sicrhau bod ymgyrchoedd Addysgu Cymru yn seiliedig ar wybodaeth a thystiolaeth gyfredol, mae gwaith yn mynd rhagddo i ddiweddarau ein gwybodaeth gan ein cynulleidfaoedd amrywiol er mwyn deall cymhellion a rhwystrau sy'n gysylltiedig â dilyn gyrfa addysgu. Mae hyn wedi cynnwys ymchwil desg, grwpiau ffocws/un i un, gwrandao ar y cyfryngau cymdeithasol a, bellach, ddatblygu personâu a negeseuon i lywio'r camau nesaf yn yr ymgyrch.

b. Cyllid myfyrwyr yng Nghymru a gwybodaeth am israddedigion o Gymru

Dros y blynyddoedd diwethaf mae Cymru wedi gosod cynsail ar gyfer darparu'r pecyn cyllid myfyrwyr mwyaf hael sydd ar gael i fyfyrwyr cymwys o Gymru. Mae'r cwrs TAR yn denu'r [pecyn cymorth ariannol blynyddol i israddedigion](#) sy'n sicrhau'r cymorth gorau posibl i athrawon dan hyfforddiant. Mae hyn yn golygu y gall myfyrwr cymwys wneud cais am hyd at £10,315 neu £15,170 o gymorth cynhaliaeth, yn amodol ar ble maent yn byw wrth astudio, a benthyciad ffioedd dysgu o hyd at £9,250 ar gyfer pob blwyddyn o'r cwrs TAR. Mae grantiau eraill ar gael i'r rhai sydd â dibynyddion. Os bydd myfyrwr yn dewis astudio'n rhan-amser, caiff y cymorth ei ddarparu ar sail pro rata.

Bydd y pwyllgor yn dymuno nodi'r data isod gan yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) mewn perthynas â'r boblogaeth israddedig o flwyddyn academiaidd 2021/22; israddedigion yw'r gronfa recriwtio y caiff arbenigwyr pwnc uwchradd eu recriwtio ohoni ar gyfer cyrsiau TAR. Mae angen gradd er mwyn dod yn athro ysgol cymwysedig.

Noder bod y pwnc a gaiff ei astudio a phynciau modiwlau yn wahanol ac felly ni ellir eu cymharu. Ceir rhagor o wybodaeth am hyn yn Adran B [Y Gymraeg mewn Addysg Uwch, 2021/22 \(llyw.cymru\)](#).

Israddedigion sy'n hanu o Gymru yn ôl gwlad y darparwr a'r pwnc a gaiff ei astudio (blwyddyn academiaidd 2021/22)

	Cymru	Rhan arall o'r DU	Cyfanswm y DU
Meddygaeth a deintyddiaeth	930	1,240	2,170
Pynciau sy'n gysylltiedig â meddygaeth	9,060	3,130	12,190
Gwyddorau chwaraeon a biolegol	3,450	1,640	5,090
Seicoleg	4,500	1,210	5,710
Gwyddorau milfeddygol	100	350	450
Amaethyddiaeth, bwyd ac astudiaethau cysylltiedig	430	470	900
Gwyddorau ffisegol	1,040	1,045	2,085
Gwyddorau mathemategol	600	550	1,150
Peirianeg a thechnoleg	3,350	1,795	5,145
Cyfrifiadura	3,670	1,000	4,665
Pensaernïaeth, adeiladu a chynllunio	885	650	1,530
Daearyddiaeth, astudiaethau daear ac amgylcheddol (gwyddorau naturiol)	725	515	1,240
Cyfanswm Gwyddoniaeth	28,735	13,595	42,325
Gwyddorau cymdeithasol	7,735	2,680	10,415
Y gyfraith	4,095	1,355	5,450
Busnes a rheolaeth	5,465	2,660	8,120
Astudiaeth iaith ac ardal	1,675	1,060	2,735
Astudiaethau hanesyddol, athronyddol a chrefyddol	1,340	1,000	2,345
Addysg ac addysgu	3,785	675	4,460
Astudiaethau cyfun a chyffredinol	3,265	140	3,405
Cyfryngau, newyddiaduraeth a chofrestru	655	525	1,185

Dylunio, celfyddydau creadigol a pherfformio	3,220	3,340	6,560
Daearyddiaeth, astudiaethau daear ac amgylcheddol (gwyddorau cymdeithasol)	140	130	265
Cyfanswm heb fod yn Wyddoniaeth	31,375	13,565	44,940
Cyfanswm	60,110	27,160	87,270

Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr a Chofnod Amgen Myfyrwyr HESA drwy Lywodraeth Cymru

Nodiadau:

Niferoedd yn seiliedig ar gofrestriadau ar gyfer myfyrwyr sydd:

1. Yn y boblogaeth sy'n cofrestru mewn Addysg Uwch Safonol.
2. Yn hanu o Gymru
3. Yn astudio ar lefel Israddedig

Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf

Mae'n bosibl na fydd y niferoedd yn creu'r cyfansymiau oherwydd talgrynnu

Mae'r ffigurau wedi'u cyfrifo ar sail cyfwerth â pherson llawn. Mae hyn yn golygu os bydd myfyriwr ar gwrs yn astudio mwy nag un pwnc, caiff y cwrs ei rannu rhwng y pynciau hynny. Er enghraifft, caiff myfyriwr sy'n astudio 0.5 Astudiaethau busnes a 0.5 Ffrangeg ei gyfrif fel 0.5 Cyfwerth â Pherson Llawn mewn Busnes ac astudiaethau gweinyddol a 0.5 Cyfwerth â Pherson Llawn mewn leithoedd.

Mae'r data ar gyfer y pwnc a gaiff ei astudio (neu bwnc y cwrs) a phynciau modiwlau yn wahanol. Ni ddylid cymharu'r ffigurau ar gyfer y rhain.

Israddedigion sy'n hanu o Gymru yng Nghymru yn ôl darparwr a statws siaradwr Cymraeg (blwyddyn academiaidd 2021/22)

	Siaradwr Cymraeg rhugl	Siaradwr Cymraeg heb fod yn rhugl	Ddim yn siaradwr Cymraeg	Ddim yn hysbys	Pob un	% sy'n siaradwr Cymraeg rhugl	% sy'n siaradwr Cymraeg heb fod yn rhugl
Sefydliadau addysg uwch	7,840	7,995	36,350	6,795	58,980	15%	15%
<i>Prifysgol Aberystwyth</i>	655	420	1,015	20	2,115	31%	20%
<i>Prifysgol Bangor</i>	1,115	420	1,465	0	2,995	37%	14%
<i>Prifysgol Caerdydd</i>	1,400	1,225	5,365	10	8,000	18%	15%
<i>Prifysgol Metropolitan Caerdydd</i>	685	690	3,485	60	4,915	14%	14%
<i>Prifysgol Abertawe</i>	1,215	1,210	4,885	0	7,315	17%	17%
<i>Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant</i>	835	990	4,575	115	6,510	13%	15%
<i>Prifysgol De Cymru</i>	1,010	1,310	7,815	105	10,235	10%	13%
<i>Prifysgol Wrecsam</i>	290	500	2,155	65	3,010	10%	17%
<i>Y Brifysgol Agored</i>	640	1,225	5,595	6,425	13,880	9%	16%
Sefydliadau addysg bellach	315	220	585	10	1,125	28%	15%
<i>Coleg Gŵyr Abertawe</i>	10	5	30	0	50	26%	15%
<i>Grŵp Llandrillo Menai</i>	275	190	435	0	900	31%	21%
<i>Grŵp NPTC</i>	25	20	120	5	180	16%	13%
ïofrestriad	8,155	8,215	36,935	6,805	60,110	15%	15%

[Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr HESA drwy Lywodraeth Cymru \[Gweld y data\]](#)

Nodiadau:

Niferoedd yn seiliedig ar gofrestriadau ar gyfer myfyrwyr sydd:

1. Yn y boblogaeth sy'n cofrestru mewn Addysg Uwch Safonol
2. Yn hanu o Gymru
3. Yn astudio yng Nghymru (gan gynnwys canolfan genedlaethol Cymru Y Brifysgol Agored)
4. Yn astudio ar lefel israddedig

Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf

Mae'n bosibl na fydd y niferoedd yn creu'r cyfansymiau oherwydd talgrynnu

Mae'r cyfrifiadau canrannol yn seiliedig ar y myfyrwyr y mae eu statws siaradwr Cymraeg yn hysbys. Mae hyn yn golygu nad yw myfyrwyr â statws siaradwr Cymraeg anhysbys wedi'u cynnwys yn y cyfrifiadau.

Myfyrwyr israddedig yng Nghymru yn ôl pwnc HECOS a statws addysg cyfrwng Cymraeg (2021/22)

	Rhywfaint o addysg cyfrwng Cymraeg	Dim addysg cyfrwng Cymraeg	Canran ag addysg cyfrwng Cymraeg (%)
Meddygaeth a deintyddiaeth	250	2,810	8%
Pynciau sy'n gysylltiedig â meddygaeth	850	10,755	7%
Gwyddorau chwaraeon a biolegol	275	9,145	3%
Seicoleg	130	6,035	2%
Gwyddorau milfeddygol	0	85	0%
Amaethyddiaeth, bwyd ac astudiaethau cysylltiedig	115	640	15%
Gwyddorau ffisegol	5	3,020	<1%
Gwyddorau mathemategol	35	2,410	1%
Peirianeg a thechnoleg	130	7,385	2%
Cyfrifiadura	150	6,035	2%
Daearyddiaeth, Astudiaethau Daear ac Amgylcheddol	45	2,735	2%
Pensaernïaeth, adeiladu a chynllunio	40	1,755	2%
Gwyddorau cymdeithasol	695	11,790	6%
Y gyfraith	210	7,210	3%
Busnes a rheolaeth	380	13,260	3%
Cyfyngau, Newyddiaduraeth a Chyfathrebu	135	1,525	8%
Astudiaethau iaith ac ardal	265	5,200	5%
Astudiaethau Cymraeg a Chymreig	240	10	96%
Iaith Geltaidd arall	10	15	37%
Iaith Ewropeaidd arall	5	1,560	<1%
Astudiaethau hanesyddol, athronyddol a chrefyddol	160	2,875	5%
Dylunio, Celfyddydau Creadigol a Pherfformio	895	4,885	15%
Drama	145	515	22%
Cerddoriaeth	5	900	1%
Sinemateg a Ffotograffiaeth	110	655	14%
Addysg ac addysgu	725	3,475	17%
Hyfforddiant athrawon	150	470	24%
Astudiaethau mewn Addysg	575	3,010	16%
Astudiaethau cyfun a chyffredinol	135	1,725	7%
Pob pwnc	5,630	104,755	5%

[Ffynhonnell: Cofnod myfyrwyr HESA drwy Llywodraeth Cymru \[Gweld y data\]](#)

Nodiadau:

Niferoedd yn seiliedig ar gofrestrïadau ar gyfer myfyrwyr sydd:

1. Yn y boblogaeth sy'n cofrestru mewn Addysg Uwch Safonol
2. Yn astudio yng Nghymru (gan gynnwys canolfan genedlaethol Cymru Y Brifysgol Agored)
3. Yn astudio ar lefel israddedig

Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf

Mae'n bosibl na fydd y niferoedd yn creu'r cyfansymiau oherwydd talgrynnu

Mae'r pynciau a nodir ar sail Cyfwerth â Pherson Llawn yn rhannu pob myfyriwr ar draws pynciau'r modiwlau y maent yn eu hastudio. Pe bai hanner modiwlau myfyriwr yn fodiwlau Mathemateg, a hanner yn fodiwlau'r Gyfraith, byddai'n cyfrif fel hanner myfyriwr (0.5) yn astudio Mathemateg a hanner myfyriwr yn astudio'r Gyfraith. Ar ôl i bynciau myfyriwr gael eu cyfrifo ar sail Cyfwerth â Pherson Llawn, rydym yn cadarnhau a gafodd unrhyw ran o bwnc ei hastudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn golygu os mai Mathemateg yw hanner cwrs myfyriwr (0.5 Cyfwerth â Pherson Llawn), a'i fod yn astudio rhywfaint o Fathemateg drwy gyfrwng y Gymraeg, yna byddai hefyd yn cyfrif fel hanner myfyriwr yn astudio Mathemateg drwy gyfrwng y Gymraeg (0.5 Cyfwerth â Pherson Llawn).

Mae'r data ar gyfer y pwnc a gaiff ei astudio (neu bwnc y cwrs) a phynciau modiwlau yn wahanol. Ni ddylid cymharu'r ffigurau ar gyfer y rhain.

c. Addysg Gychwynnol i Athrawon

Cred Llywodraeth Cymru fod AGA o ansawdd uchel sy'n ymgysylltu â'r sector addysg ehangach yn ffactor pwysig er mwyn denu graddedigion a sicrhau cyflenwad o athrawon newydd i'r proffesiwn addysgu. Dechreuwyd ar y gwaith o ddiwygio'r system AGA yng Nghymru yn dilyn adroddiad [Addysgu Athrawon Yfory](#). Cafodd y gwaith hwnnw ei ategu gan nifer o ddiwygiadau rhyngysylltiedig a rhyngddibynnol eraill gan gynnwys safonau proffesiynol newydd, ein cwricwlwm newydd a newidiadau i gyllid myfyrwyr.

Mae'r Meini Prawf ar gyfer achredu rhaglenni AGA yng Nghymru (y 'meini prawf') yn amlinellu model lle mae gan ysgolion a sefydliadau addysg uwch ran gyfartal i'w chwarae wrth gynnig y cydbwysedd rhwng theori ac ymarfer i sicrhau profiad o ansawdd uchel i athrawon y dyfodol. Mae'r partneriaethau hyn yn ymestyn i ysgolion fod yn bartner cyfartal yn natblygiad cychwynnol a sicrwydd ansawdd parhaus eu rhaglenni AGA, hyfforddiant staff, a strategaethau a gweithgareddau recriwtio. Gwnaeth yr arferion addawol i baratoi athrawon (AGA) a nodwyd yn adroddiad [Flying Start](#) yr OECD dynnu sylw at ein dull o gydnabod 'schools as an important partner in the design and delivery of initial teacher education programmes and the creation and use of research' fel cryfder.

Mae'n bwysig nodi rôl ddiwygiedig a chynyddol ysgolion yn y system AGA yng Nghymru. Mae'r trefniadau partneriaeth AGA rhwng ysgolion a phrifysgolion bellach yn cefnogi system sy'n hunanwella, gyda'r proffesiwn yn gweithio i wella ei hun ac eraill. Mae ysgolion ym Mhartneriaethau AGA Cymru yn gyfrifol am sicrhau y caiff athrawon dan hyfforddiant eu recriwtio i AGA yn genedlaethol, ac maent yn rhan hanfodol o hyn.

Fel rhan o'r diwygiadau i AGA, gwnaeth Llywodraeth Cymru gaffael llwybrau AGA amgen ledled Cymru ac mae'n parhau i gefnogi'r rhain. Enillodd Y Brifysgol Agored y contract a datblygodd y [Dystysgrif Addysg i Raddedigion \(TAR\) Cyflogedig](#) a'r Cwrs TAR Rhan-amser. Bwriedir i'r cyrsiau TAR hyn gefnogi graddedigion sy'n dymuno ymuno â'r proffesiwn addysg na fyddent yn gallu gwneud hynny fel arall drwy TAR amser llawn 'traddodiadol' (megis y rhai sydd am newid gyrfa, rhieni/gofalwyr sy'n oedolion, y rhai o aelwydydd/cefnidiroedd incwm isel, a'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig nad ydynt yn gallu cyrraedd prifysgol ranbarthol). Mae'r ddau gwrs TAR wedi bod ar gael ers blwyddyn academiaidd 2020/21 ac mae gwaith dadansoddi a wnaed gan Y Brifysgol Agored ar ei hathrawon dan hyfforddiant yn dangos eu bod yn garfan unigryw, gan gynrychioli athrawon dan hyfforddiant ychwanegol sy'n astudio i ddod yn athrawon na fyddent wedi gallu gwneud hynny fel arall. Mae'r pynciau uwchradd sydd ar gael wedi cael eu hehangu sawl gwaith er mwyn cydnabod galw a brofwyd gan ymgeiswyr ac ysgolion a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Heblaw am ieithoedd tramor modern (a chynnwys Saesneg a Chynradd) gellir astudio pob pwnc â blaenoriaeth, gan gynnwys y gwyddorau, drwy'r Cwrs TAR Rhan-amser neu'r TAR Cyflogedig. Mae cyllid myfyrwyr (gweler adran 5b) ar gael i athrawon dan hyfforddiant sy'n astudio'r cwrs TAR rhan-amser ac rydym wedi ymrwymo i gefnogi'r athrawon dan hyfforddiant a'r ysgolion sy'n eu cyflogi ar y TAR Cyflogedig drwy gyllid grant am dair blwyddyn academiaidd arall (2024-25 i 2026-27). Mae hyn yn cynnwys cost eu cwrs TAR, a chyfraniad at eu cyflog a ddarperir i'r ysgolion sy'n eu cyflogi.

Rydym yn ymrwymedig o hyd i sicrhau bod gan bob athro dan hyfforddiant, **ni waeth pa lwybr AGA y bydd yn ei ddilyn, yr hawl i AGA o ansawdd uchel sy'n ei baratoi i ymuno â'r gweithlu addysgu, ac yn cael yr addysg honno.** Mae pob rhaglen AGA yng Nghymru sy'n dyfarnu statws athro cymwysedig (SAC) yn ddarostyngedig i'r un safonau uchel drwy ein fframwaith rheoleiddio [a lywiwyd gan dystiolaeth](#) (gweler hefyd Cylchgrawn Addysg Cymru: [Furlong, 2016](#), a [Furlong, 2020](#)). Mae hyn yn amddiffyn rhag gweithlu dwy haen ac yn sicrhau bod athrawon o ansawdd uchel sydd wedi'u paratoi'n briodol yn ysgolion Cymru.

d. Cymorth gyrfa gynnar a dysgu proffesiynol

Mae cydnabyddiaeth gynyddol bod cefnogi dysgu proffesiynol athrawon o'r dechrau a hyd at ddiwedd eu gyrfa yn hanfodol er mwyn datblygu addysgu o ansawdd uchel.

Mae sicrhau bod pob ymarferydd yn gallu cael gafael ar gyfleoedd dysgu proffesiynol gwarantedig drwy gydol ei yrfa yn rhan annatod o'n gweledigaeth ar gyfer addysg yng Nghymru er mwyn sicrhau bod ymarferwyr yn cael eu cefnogi i ddatblygu drwy gydol eu gyrfaedd ac yn aros yn y proffesiwn.

Caiff athrawon newydd gymhwyso eu cefnogi drwy gydol eu blwyddyn addysgu gyntaf gyda mentor wedi'i ariannu a rhaglen dysgu proffesiynol er mwyn darparu'r cymorth sydd ei angen arnynt wrth iddynt ddechrau eu gyrfaedd. Fel rhan o'n pecyn cymorth gyrfa gynnar, rydym hefyd yn ariannu gradd Meistr Genedlaethol mewn Addysg (MA) ar gyfer hyd at 200 o unigolion bob blwyddyn. Hefyd, cyhoeddais yn ddiweddar y byddai Doethuriaeth Genedlaethol mewn Addysg yn cael ei lansio a fydd ar gael o fis Ionawr 2025. Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn darparu llwybr academiaidd achrededig i'n hymarferwyr.

Mae'r Hawl Genedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol, a lansiwyd ym mis Medi 2022, yn ceisio sicrhau bod [darpariaeth dysgu proffesiynol o ansawdd](#) ar gael i bob ymarferydd er mwyn sicrhau safonau uchel a dyheadau i bob dysgwr. Rydym yn parhau i ddarparu cyfanswm o chwe diwrnod Hyfforddiant mewn Swydd (HMS) a'r grant dysgu proffesiynol, sy'n werth £12m y flwyddyn, er mwyn galluogi ymarferwyr i achub ar gyfleoedd dysgu proffesiynol.

e. Hunaniaeth Broffesiynol Athrawon

Rydym yn ymgysylltu â'r OECD ynghylch [astudiaeth ymchwil newydd i broffesiynoldeb](#) ar hyn o bryd, er mwyn llywio ein dyheadau ar gyfer dyfodol addysgu yng Nghymru. Ar y cyd ag ymchwil ehangach, bydd canfyddiadau'r OECD yn cynnig cyfleoedd i godi proffil addysgu fel gyrfa, yn helpu i gadw athrawon a chynorthwyrwyr addysgu mewn ysgolion a lleoliadau ac yn cael effaith gadarnhaol ar brofiadau dysgwyr o ganlyniad uniongyrchol i hynny.

Mae'r Cwricwlwm i Gymru hefyd yn cynnig cyfle i newid canfyddiadau a chodi proffil addysgu. Mae'r newid sylfaenol hwn nid yn unig i'r hyn rydym yn ei addysgu ond sut rydym yn addysgu a'r ddealltwriaeth o pam rydym yn ei addysgu, yn cynnig cyfle newydd i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o athrawon i ymuno â'r proffesiwn. Mae gan y ffyrdd o weithio sy'n sail i'r cwricwlwm – creadigrwydd, galluedd ac arweinyddiaeth athrawon ar bob lefel – y potensial i annog mwy i ymuno â'r proffesiwn hefyd. Byddwn yn parhau i arddangos yr hyn y mae ymarferwyr yng Nghymru yn ei gyflawni a sut maent yn cefnogi eu dysgwyr i wireddu eu potensial drwy'r Cwricwlwm i Gymru.

f. Cyflog Athrawon

Ar gyfer cyflog ac amodau athrawon yng Nghymru, mae proses flynyddol y cytunwyd arni ar waith sy'n cynnwys cyfuniad o bartneriaeth gymdeithasol ac arbenigedd annibynnol o Gorff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru. Rydym yn gwbl ymrwymedig i'r strwythurau partneriaeth gymdeithasol hyn a'r broses sefydledig ar gyfer penderfynu ar gyflog ac amodau athrawon yng Nghymru ac yn parhau i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau a phryderon drwy ein rhwydwaith partneriaeth gymdeithasol gyda'r nod o wneud y proffesiwn addysgu yng Nghymru yn amgylchedd deniadol a fydd yn annog ac yn cefnogi camau i recriwtio i'r proffesiwn.

Drwy ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar bartneriaeth gymdeithasol a'n hymrwymiad i sicrhau nad oes anfantais i athrawon, rydym yn cefnogi'r proffesiwn addysgu drwy sicrhau bod eu cyflog, eu telerau a'u hamodau wedi'u cynllunio i gyd-fynd â'r proffesiwn yma yng Nghymru yn y ffordd orau bosibl ac rydym yn cynnig cyflogau a lwfansau uwch i athrawon newydd ac athrawon mwy profiadol nag yn Lloegr ar hyn o bryd.

Mae'r broses flynyddol y cytunwyd arni hefyd wedi ein galluogi i gyflwyno rhai newidiadau allweddol y gofynnwyd amdanynt gan y proffesiwn er mwyn gwella system cyflogau athrawon dros y pedair blynedd diwethaf. Mae newidiadau cadarnhaol wedi cynnwys ailgyflwyno cludadwyedd cyflog a chael gwared ar ddatblygiad cyflog yn seiliedig ar berfformiad. Y llynedd, gwnaethom hefyd ddiddymu'r egwyddor pro rata lem ar gyfer lwfansau Cyfrifoldeb Addysgu a Dysgu (CAD), gan wneud y lwfansau hyn yn fwy hygyrch ac yn llawer tecach i athrawon rhan-amser.

Wrth symud ymlaen, cyhoeddwyd Adolygiad Strategol ac argymhellion Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru mewn perthynas â Chyflog ac Amodau Athrawon drwy ddatganiad ysgrifenedig ar 9 Ebrill 2024 ac mae trafodaethau â rhanddeiliaid ar yr adroddiad a'r argymhellion yn mynd rhagddynt. Mae'r broses flynyddol ar gyfer Cyflogau Athrawon ym mlwyddyn ariannol 2024/25 hefyd yn mynd rhagddi a bydd yn rhoi cyfleoedd pellach inni ddatblygu system genedlaethol fwy ar wahân yma yng Nghymru sy'n gwella'r system ond sydd hefyd yn decach ac yn fwy tryloyw i bob athro

g. Llesiant Athrawon

Gan gydnabod y cysylltiad annatod rhwng llwyth gwaith a llesiant, rydym yn ariannu Education Support am y bedwaredd flwyddyn yn olynol. Elusen yw Education Support sydd â degawdau o arbenigedd mewn cefnogi'r gweithlu addysg gyda'u hiechyd meddwl a'u llesiant. Mae'r ystod eang o gymorth a ddarperir gan Education Support yn cynnwys cyngor a chymorth am ddim i ysgolion ledled Cymru; cymorth iechyd meddwl a llesiant wedi'i deilwra drwy ei Wasanaeth Llesiant Ysgolion; gweminarau a gweithdai; cymorth gan gymheiriaid; hyfforddiant gwydnwch, a gwefan benodol sydd â'i chasgliad ei hun o adnoddau, y mae llawer ohonynt ar gael yn Gymraeg. Gellir cael manylion ar [Hwb i Athrawon Education Support](#).

Ym mis Mawrth 2021 cyhoeddwyd y [Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol](#). Mae'r fframwaith yn statudol ar gyfer pob ysgol a gynhelir ac awdurdod lleol ac mae wedi'i anelu at anghenion dysgwyr oedran ysgol a'r gweithlu sy'n eu helpu i ddysgu. Mae'n ceisio creu amgylchedd cefnogol lle mae pobl ifanc yn cael eu hannog i gyflawni eu potensial personol ac academaidd, lle maent yn ffynnu, dysgu a datblygu'n emosiynol, gyda chefnogaeth athrawon sy'n gweithredu mewn diwylliant sy'n gwerthfawrogi eu lles eu hunain yn gyfartal.

h. Llwyth Gwaith Athrawon

Rydym yn cydnabod y pwysau sy'n wynebu staff addysg, y cysylltiad annatod rhwng llwyth gwaith a llesiant a'r ffaith y caiff llwyth gwaith ei nodi fel un o'r prif resymau dros adael y proffesiwn. Yn ystod y flwyddyn hon yn arbennig, drwy ddefnyddio dull partneriaeth gymdeithasol, rydym wedi ymgymryd â gweithgareddau ymgysylltu parhaus ac wedi gweithio'n adeiladol gyda'n rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys arweinwyr ac undebau athrawon, er mwyn nodi achosion llwyth gwaith a biwrocratiaeth a mynd i'r afael â nhw.

Rydym wedi ailstrwythuro a rhoi ffocws newydd i'n trefniadau ymgysylltu â phartneriaid mewn perthynas â'r Grŵp Cydgysylltu Llwyth Gwaith Strategol newydd a gaiff ei gadeirio'n annibynnol. Mae'r Grŵp hwn yn goruchwyllo pob mater sy'n gysylltiedig â lleihau llwyth gwaith a biwrocratiaeth mewn ysgolion er mwyn sicrhau y defnyddir dull cyson a chyflawnadwy. Yn sail i hyn mae tri gweithgor sy'n canolbwyntio ar gyllid; adrodd ac ymgysylltu; a datblygu polisïau a'u rhoi ar waith. Caiff pob gweithgor ei gadeirio ar wahân gan gynrychiolwyr o blith ein rhanddeiliaid allweddol ac mae gan bob grŵp gynllun gweithredu, gyda thargedau ac elfennau allweddol i'w cyflawni, gan ystyried achosion penodol pwysau sy'n gysylltiedig â llwyth gwaith yn y meysydd hyn a chanolbwyntio ar ba gamau y gellir eu cymryd er mwyn sicrhau newid go iawn a fydd yn lleihau'r baich.

Byddwn yn parhau i gydweithio'n ddi-oed i gyflawni'r newidiadau ymarferol hyn. Mae hyn yn cynnwys camau uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru wrth inni barhau i weithio'n fewnol a gyda'n rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu ein hasesiad o'r effaith ar lwyth gwaith. Mae'r asesiad hwn yn ystyried y llwyth gwaith sy'n gysylltiedig ag unrhyw bolisïau newydd gan Lywodraeth Cymru ac effaith hyn ar staff addysg.

Drwy gymryd y camau hyn a pharhau i weithio mewn partneriaeth, rydym am gael effaith wirioneddol ar lefel ysgolion, lleihau'r baich a chreu lle i athrawon addysgu.

Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol

Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee

Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565

Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Buffy Williams AS

Cadeirydd

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

13 Medi 2024

Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru)

Annwyl Buffy

Diolch am eich llythyr (dyddiedig 5 Awst 2024) ac am gynnal y Pwyllgor mewn sesiwn frifio ddiweddar gan Lywodraeth Cymru ar y Bil.

Yn dilyn trafodaeth ar 17 Gorffennaf 2024, cytunodd y Pwyllgor y byddai Heledd Fychan AS a Lee Waters AS yn cymryd rhan yn eich sesiynau tystiolaeth ar gyfer Cyfnod 1 y Bil.

Edrychaf ymlaen at y cydweithio parhaus rhwng y ddau bwyllgor.

Yn gywir



Delyth Jewell AS

Cadeirydd y Pwyllgor

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon